Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru

CYSUR

Mid and West Wales Safeguarding Children Board

# Adroddiad Ymarfer Plant Cryno

*Yn hollol breifat a chyfrinachol*

# CYSUR 7/2018

**Dyddiad cyflwyno'r adroddiad i'r bwrdd:**

**8 Gorffennaf 2021**

## Adroddiad ar Adolygiad Ymarfer Plant

## CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Adolygiad Ymarfer Plant Cryno

## Ynghylch: CYSUR 7/2018

TERFYNOL

**Y cyd-destun cyfreithiol**

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Cryno gan CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru yn unol â deddfwriaeth statudol a nodir yn adran 139 o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*[1] a'r canllawiau cysylltiedig *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant* (Llywodraeth Cymru, 2016).[2]

Bodlonir y meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn o dan bennod 6, *Adolygiadau Ymarfer Plant Cryno*:

Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad ymarfer plant cryno yn unrhyw un o'r achosion canlynol yn ardal y Bwrdd lle gwyddys neu lle amheuir bod achos o gam-drin neu esgeuluso plentyn wedi digwydd a lle mae'r plentyn:

- wedi marw; neu
- wedi cael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu'i ddatblygiad; **ac**

nid oedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant nac yn blentyn a oedd yn derbyn Ggfal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y chwe mis cyn –

- dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu
- y dyddiad y nododd awdurdod lleol neu bartner perthnasol,[3] fod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd a'i ddatblygiad.

Mae'r meini prawf ar gyfer adolygiadau cryno wedi'u nodi yn *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*[4].

Pwrpas yr adolygiad yw nodi dysgu ar gyfer ymarfer yn y dyfodol. Mae'n cynnwys ymarferwyr, rheolwyr ac uwch-swyddogion yn archwilio manylion a chyd-destun gwaith asiantaethau gyda phlentyn a theulu. Bwriad allbwn yr adolygiad yw cynhyrchu dysgu proffesiynol a sefydliadol a hyrwyddo gwelliant mewn arferion rhyngasiantaethol ac amddiffyn plant yn y dyfodol. Dylai gynnwys yr amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad, gan gynnwys amlygu ymarfer effeithiol ac ystyriaethau ynghylch yr hyn sydd angen ei

---

[1] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
[2] Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant (Llywodraeth Cymru, 2016)
[3] Ystyr awdurdod lleol neu bartner perthnasol yw unigolyn neu gorff y cyfeirir ato yn adran 28 o *Ddeddf Plant 2004* neu gorff y cyfeirir ato yn adran 175 o *Ddeddf Addysg 2002*.
[4] Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015
5. Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl - Cyfrol 2 - Adolygiadau Ymarfer Plant (Llywodraeth Cymru, 2016)

wneud yn wahanol i wella ymarfer yn y dyfodol. (*Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant* (Llywodraeth Cymru, 2016[5]).

**Yr amgylchiadau yn arwain at gynnal yr adolygiad**

Gwryw pedair ar ddeg oed oedd yr unigolyn ifanc (B), y cyhoeddwyd ei fod wedi marw yn yr ysbyty ar ôl cael ei ddarganfod mewn ciwbicl toiled ysgol ar ôl yr adroddwyd ei fod heb fynychu gwers. Roedd hon yn farwolaeth gwbl annisgwyl ac yn un sydd wedi achosi tristwch a galar aruthrol i bawb oedd yn ei adnabod.

Daeth cwest y crwner i ben ar 29 Mehefin 2021 pan ddaeth y crwner i'r casgliad canlynol:*"Yn fy marn i, boed allan o ofid, rhwystredigaeth neu ddicter, roedd hon yn amlwg yn weithred fwriadol ar ran B ond yn un a aeth o chwith. Gellir ei disgrifio'n briodol fel gweithred ddynol fwriadol a aeth o chwith yn annisgwyl ac yn anfwriadol, a dyna sut mae Canllawiau rhif 17 y Prif Grwner yn diffinio marwolaeth drwy anffawd. O ran a gymerodd B y cam hwn fel gwaedd am help ac a oedd yn disgwyl cael ei ganfod mewn cyfnod byr o amser, ni allaf ddweud. Mae'n amlwg bod amser sylweddol wedi mynd heibio cyn iddo gael ei ddarganfod yn drasig ond ni allaf fod yn siŵr bod y cyfnod hwn o ryw 56 munud yn anffodus wedi gwneud gwahaniaeth i'r canlyniad. Yn fy marn i, gwnaeth yr ysgol bopeth y gallent yn rhesymol yn y cyfnod hwnnw i ddod o hyd i B.*

*O dan yr amgylchiadau, rwy'n gweld fel a ganlyn:*

*(a) yr ymadawedig oedd B,*

*(b) ei fod wedi marw ar 12 Medi 2018 yn y ciwbicl toiled gerllaw'r adran dechnoleg yn S1 ac*

*(c) ei fod wedi marw o ganlyniad i grogi ei hun gan ddefnyddio dolen o strap lledr a oedd wedi'i gysylltu â bachyn y tu mewn i ddrws y toiled.*

*Cofnodaf achos meddygol y farwolaeth fel 1(a) Crogi a chofnodaf yn ffurfiol gasgliad byr o farwolaeth drwy anffawd". [6]*

Yn yr wythnosau cyn ei farwolaeth, disgrifiwyd B gan ei deulu fel ei 'fod yr hapusaf y bu erioed'. Roedd wedi mwynhau haf da, wedi bod ar wyliau, ac roedd yn gwneud yn dda mewn cystadlaethau ceffylau clodfawr allanol. Nodwyd hefyd ei fod yn 'tyfu i fyny yn gyflym'. Y noson cyn ei farwolaeth, roedd B wedi bod yng nghwmni ei deulu estynedig a oedd yn aros yn yr ardal, ac roedd cynlluniau wedi'u gwneud i fynd am bryd o fwyd Tsieineaidd yn hoff fwyty B ar y penwythnos. Dechreuodd diwrnod marwolaeth B fel arfer; B oedd y cyntaf i godi, cafwyd y tynnu coes arferol gan y teulu, cymerwyd meddyginiaeth, a chanolbwyntiodd B ar ei geffyl a ras a oedd ar ddod.

Roedd ei bresenoldeb yn yr ysgol yn dda, ac roedd B wedi bod yn gyffrous am fynychu prom yr ysgol. Roedd hefyd yn ymgysylltu'n dda â staff bugeiliol yr ysgol.

Dangosai B aeddfedrwydd y tu hwnt i'w flynyddoedd, o ganlyniad i dreulio cryn dipyn o amser gydag oedolion yn y byd marchogaeth. Roedd yn annealladwy i'w deulu, ffrindiau a staff yr ysgol y rheswm pam y digwyddodd y digwyddiad trasig.

[6] Canfyddiadau a chasgliadau – Cwest i'r Farwolaeth – Crwner Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin 29 Mehefin 2021

Yn unol â gweithdrefnau, cynhaliwyd[7] cyfarfod Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentyndod (PRUDiC).Penderfyniad yr aelodau yn y cyfarfod hwnnw oedd, yn seiliedig ar amgylchiadau'r farwolaeth sydyn, y dylid gwneud atgyfeiriad o dan y Broses Adolygiad Ymarfer Plant.

## Y cyfnod amser a adolygwyd a'r rheswm dros hynny

Mewn Adolygiad Ymarfer Plant Cryno, mae'r dysgu fel arfer yn canolbwyntio ar y deuddeg mis diwethaf cyn y farwolaeth neu ddigwyddiad difrifol ym mywyd unigolyn ifanc. Ar gais teulu B ac ar ôl i'r panel adolygu ystyried pwysigrwydd cynnwys yr holl drefniadau pontio, cadarnhawyd amserlen estynedig o'r cyfnod rhwng 1 Medi 2016 a 12 Medi 2018, sydd hefyd yn ystyried y digwyddiadau a arweiniodd at farwolaeth B ym mis Medi 2018. Fodd bynnag, er mwyn deall y cyd-destun angenrheidiol yn llawn, mae'r panel, y cadeirydd, a'r adolygydd annibynnol wedi ystyried gwybodaeth gyd-destunol hanesyddol berthnasol. Cafodd yr wybodaeth gyd-destunol hon ei chydnabod ymhellach hefyd gan yr asiantaethau a fynychodd y digwyddiad dysgu.

## Y teulu

Mae'r adolygydd annibynnol, cadeirydd y panel, ac aelodau'r panel am gydnabod cyfraniadau sylweddol teulu B (ei dad, ei lysfam a'i chwaer) a ffrindiau agos o'r teulu a gymerodd ran yn fodlon yn yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno. I ddechrau bu cyfarfod rhyngddynt â chadeirydd y panel adolygu cyn cyfyngiadau'r pandemig, ac yna wedyn â'r cadeirydd a'r adolygydd annibynnol trwy Microsoft Teams a Zoom. Roedd y panel adolygu yn cydnabod y bu'n broses hynod heriol ac emosiynol boenus iddynt, a hoffent ddiolch yn ddiffuant i aelodau'r teulu a ffrindiau am eu helpu i ddod i adnabod B fel aelod unigryw, arbennig, annwyl, dawnus a gwerthfawr o'u teulu, a oedd yn gymeriad a hanner. Erys colled fawr ar ei ôl y mae ei deulu torcalonnus yn dal i'w deimlo, ynghyd â'i ffrindiau niferus, staff yr ysgol a'r gymuned farchogaeth y bu'n byw ac yn cymdeithasu ynddi.

Mae'r teulu wedi lleisio cwestiynau ac ymholiadau sylweddol y mae'r broses adolygu hon wedi ceisio mynd i'r afael â nhw, ond efallai na fydd y broses hon yn gallu darparu'r holl atebion.Cafodd mewnbwn y teulu ei gynnwys a'i archwilio yn y digwyddiad dysgu, ond y cwestiwn mwyaf cymhellol iddyn nhw yw eu bod eisiau gwybod "*y gwir am yr hyn a ddigwyddodd y diwrnod hwnnw a deall pam yn eu barn nhw y methodd y system plentyn B***".**

## Y plentyn

B oedd plentyn hynaf y teulu, ac fe'i disgrifiwyd fel mab, brawd a llysfab hoffus oedd â llawer i'w ddathlu yn ei fywyd. Roedd yn farchogwr medrus, gan gystadlu ar safon uchel yn genedlaethol. Roedd B yn mwynhau bod yn rhan o'r helfa[8] ac yn treulio amser ar ei feic cwad.Roedd yn rhan o uned deuluol agos ac yn aelod hollbwysig o'r byd ceffylau. Y tu allan i'r ysgol, roedd ganddo lawer o ffrindiau; fe'i disgrifiwyd gan ei deulu fel "*rhyfeddol, carismatig, caredig, cariadus, a doniol, roedd yn ddyn ifanc a oedd yn hoffi gofyn cwestiynau a gwthio'r ffiniau, byddai hefyd yn sgwrsio ag unrhyw un a phawb.*" Cafodd B ddiagnosis o Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD)[9] a chafodd gymorth trwy feddyginiaeth

TERFYNOL

[7] Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentyndod (PRUDiC)
[8] Helfa – helfa "esgidiau glân" pan fydd cŵn yn dilyn arogl dynol. Aelod o Three Counties Bloodhounds.
[9] ADHD - Mae anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd yn gyflwr sy'n cynnwys symptomau fel diffyg sylwgarwch, gorfywiogrwydd a byrbwylltra.Mae symptomau ADHD yn cynnwys cyfnod canolbwyntio byr, aflonyddu yn gyson a gweithredu heb feddwl.

(Elvanse).[10] Roedd ganddo hefyd amhariad ar ei glyw.Nid oedd gan B Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)[11], ond derbyniodd gefnogaeth ychwanegol yn unol â chais yr ysgol trwy Gynorthwyydd Addysgu, ond nid ar sail un i un; roedd cynorthwyydd addysgu yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau i B fynd ato os oedd angen cymorth arno.Trwy gydol ei addysg mynychodd B ysgol brif ffrwd, gan bontio ddwywaith yn ei flynyddoedd addysg uwchradd yn 11 a 13 oed yn y drefn honno. (Yn symud ymlaen o'r ysgol gynradd i'r uwchradd i ddechrau ac yna'n 13 oed, oherwydd pryderon ynghylch bwlio, ochr yn ochr â'r teimlad y byddai B yn fwy tebygol o lwyddo mewn lleoliad ysgol uwchradd llai o faint).

Roedd B, wedi cael trafferth ar adegau, pan oedd yn yr ysgol, ac mae cofnodion o ddigwyddiadau yn yr amserlen adolygu, am fwlio yn digwydd yn yr ysgol ac wrth deithio ar y bws ysgol, gan achosi trallod a phryder i B.  Roedd yn alluog yn academaidd ac ar y trywydd iawn i gyflawni nifer o gymwysterau TGAU. Roedd B yn ddeallus yn emosiynol, ac yn mwynhau yn arbennig gwaith ymarferol (roedd yn dilyn cwrs adeiladu un diwrnod yr wythnos), roedd yn 'ymarferol', roedd wrth ei fodd yn tynnu pethau'n ddarnau (yn enwedig pethau mecanyddol), a hefyd yn mwynhau celf a dylunio. Roedd adborth a dderbyniwyd o ddigwyddiadau llais y disgyblion blaenorol yn hysbysu'r adolygiad y byddai B yn dechrau'r bore yn y dosbarth cofrestru drwy adrodd 'stori ddoniol'.

Mae'n bwysig bod y panel Adolygiad Ymarfer Plant Cryno wedi gallu gweld B trwy lygaid ei deulu, ei ffrindiau a'r rhai a oedd yn ei adnabod yn dda.  Yn ogystal â'r heriau a wynebodd B oherwydd ei ADHD, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod[12] a hanes o gael ei fwlio, roedd hefyd yn unigolyn ifanc a oedd yn wynebu heriau pontio i blaenlencyndod a glasoed. Bu'r panel Adolygiad Ymarfer Plant Cryno yn ystyried effaith yr anawsterau ychwanegol y gallai pontio o'r fath fod wedi'u cael ar B ac mae wedi ceisio deall a allai hyn fod wedi cyfrannu at fregusrwydd B ar adeg ei farwolaeth.  Ni fu'n bosibl dod i unrhyw gasgliadau pendant ynglŷn â hyn, ond o ystyried astudiaethau academaidd ar faterion o'r fath, mae'n debygol iawn ei fod yn gymhlethdod pellach yr oedd B yn ei brofi. Yn eu gwaith ar Bwysigrwydd buddsoddi mewn blaenlencyndod o safbwynt gwyddoniaeth ddatblygiadol, mae Dahl, R.E., Allen, N.B., Wilbrecht, L., a Suleiman, A.B., yn crynhoi'r achos dros fuddsoddi mewn blaenlencyndod fel cyfnod o dwf, dysgu, addasu, a datblygiad niwrobiolegol ffurfiannol cyflym, ac yn nodi'r canlynol:

*"Mae newidiadau datblygiadol yn ystod blaenlencyndod yn cynnwys newidiadau strwythurol a swyddogaethol yn yr ymennydd - yn enwedig systemau niwral sy'n ymwneud â phrosesau gwybyddol, emosiynol, cymdeithasol a chymhelliant.Mae'r newidiadau niwral hyn yn gysylltiedig â newidiadau ymddygiadol megis cynnydd mewn ceisio cyffro ac ailgyfeirio sylw a chymhelliant (tuag at gyfoedion, gwerthusiad cymdeithasol, statws a bri, a diddordebau rhywiol a rhamantus). Mae datblygiad y glasoed hefyd yn golygu newidiadau mawr mewn cyd-destunau cymdeithasol, rolau cymdeithasol a chyfrifoldebau cymdeithasol. Yn bwysig, mae rhyngweithiadau cymhleth rhwng ac ymhlith y lefelau hyn o newid. Yn wir, mae dysgu a datblygiad yr ymennydd wedi'u cydblethu yn annatod, drwy gydol y cyfnod hwn wrth i ddysgu effeithio ar ddatblygiad yr ymennydd, ac mae newidiadau aeddfedu yn yr ymennydd yn eu tro yn effeithio*

[10] Elvanse – Meddyginiaeth a ddefnyddir fel rhan o raglen driniaeth ar gyfer anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd i unigolion 6 oed neu hŷn.

[11] Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)– Mae'r cod ymarfer anghenion addysgol arbennig *yn rhoi arweiniad manwl ar sut i adnabod a helpu disgyblion â datganiad AAA. Rhaid i ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol bob amser ystyried yr hyn y mae'r cod yn ei ddweud, pan fyddant yn gwneud penderfyniad am ddisgybl â datganiad AAA. Mae'r cod yn nodi y dylid diwallu anghenion plentyn â datganiad AAA*. Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Llywodraeth Cymru 2004.

Mae [12] Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ddigwyddiadau trawmatig yn enwedig y rhai yn ystod plentyndod cynnar sy'n effeithio'n sylweddol ar iechyd a llesiant pobl. – GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru



TERFYNOL

*ar ddysgu a chymhelliant.Mae ymchwil yn dweud wrthym pan fydd ADHD, y glasoed, a blaenlencyndod yn gwrthdaro, gall blynyddoedd yr arddegau fod hyd yn oed yn anoddach nag arfer.Gall newidiadau emosiynol a chymdeithasol y blaenlencyndod, a waethygir gan symptomau hormonau a chorfforol glasoed, ychwanegu haenau o gymhlethdodau newydd ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau ag ADHD."*[13]

Mae gwaith Silver ar yr hyn y dylai rhieni bechgyn ag ADHD edrych amdano wrth i'w meibion bontio trwy blaenlencyndod yn nodi, "*Mae blaenlencyndod yn gyfnod tyngedfennol i blant ag ADHD.*" Ysgrifennodd Joel Nigg, Ph.D., seicolegydd clinigol ac athro yn adrannau seiciatreg a gwyddorau ymddygiadol Prifysgol Iechyd a Gwyddoniaeth Oregon: *"Yn gyntaf, dyma'r cyfnod pan fydd y risgiau mwyaf difrifol ar gyfer canlyniadau negyddol yn digwydd - er enghraifft, cam-drin sylweddau, ymddygiad drwgweithredol, problemau gyda defnydd anffodus o'r rhyngrwyd, neu ddamweiniau difrifol fel damweiniau traffig.Mae newid lefelau o destosteron yn ystod y glasoed yn gysylltiedig ymhlith bechgyn â'r ymddygiad o gymryd mwy o risgiau. Mae testosteron hefyd yn rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth â dopamin a hormonau eraill sy'n berthnasol i ADHD.*

*Gall unigolion ag ADHD wynebu risg uwch o anhwylderau cydafiach (dau gyflwr neu fwy sy'n digwydd ar yr un pryd). Mae anhwylderau sy'n effeithio ar hwyliau a gorbryder yn aml yn ymddangos yn gyntaf rhwng 8 a 12 oed, ac eto ym mlaenlencyndod cynnar.*

*Ond efallai'n fwy peryglus yw'r ffaith y gall byrbwylltra ADHD - sy'n cael ei waethygu gan bwysau oddi wrth gyfoedion a thorri ar draws triniaeth - ysgogi pobl ifanc yn eu harddegau i wneud rhai penderfyniadau annoeth iawn a allai fod yn angheuol. Mae'r mwyafrif llethol o ymchwil yn dod i'r casgliad bod defnydd hirdymor o feddyginiaeth ADHD yn lleihau'r risg o wneud penderfyniadau gwael a/neu fyrbwyll ymhlith pobl ifanc*"[14]

Bu'r panel adolygu hefyd yn ystyried yr effaith bosibl ar B o gael rhywfaint o drawma plentyndod cynnar pan wahanodd ei rieni, a threuliodd amser yn byw gyda'i fam. Os caiff unigolyn ifanc ddiagnosis o ADHD ac nid yw effaith esgeulustod, cam-drin neu drawma arall ar eu hymddygiad yn cael ei nodi neu nid yw'n cael ei archwilio'n llawn, efallai na fydd yn cael y cymorth sydd ei angen arno – gan leihau neu ohirio ei gyfle i wella ar ôl trawma, gan bod "ymddygiad heriol" yn parhau. Mae'r panel yn glir bod y diagnosis a roddwyd i B o ADHD yn fater meddygol ac nid yn un sy'n agored i'w drafod fel rhan o'r adolygiad hwn. Fodd bynnag, yng ngoleuni ymchwil ac wrth geisio dysgu o'r hyn a ddigwyddodd i B, rydym wedi ystyried erthygl gan Laura Hanbury am ADHD a thrawma, a gyhoeddwyd mewn cyfnodolyn gwaith cymdeithasol yn 2020.

Mae'r erthygl yn ystyried y dylanwadau amgylcheddol ar ddatblygiad ymddygiad. Mae Thapar a chydweithwyr (2015) wedi rhybuddio y dylid bob amser ystyried dylanwadau amgylcheddol a geneteg ochr yn ochr â'i gilydd pan fydd diagnosis o ADHD yn cael ei ymchwilio.

Mae hefyd yn awgrymu y gall trawma cymhleth greu'r un mathau o ymddygiadau a welwn mewn plant â diagnosis ADHD a bod lefelau diagnosis ADHD deirgwaith yn uwch ar gyfer plant yn y system amddiffyn plant. A heb unrhyw farcwyr genetig na phrofion terfynol i ddweud a yw diagnosis yn gywir, mae'n bosibl iawn bod ADHD yn cael diagnosis anghywir mewn plant a *allai* fod wedi cael eu cam-drin mewn rhyw ffordd.

**Beth mae'r ymchwil yn ei ddweud?**

[13] Dahl,R.E., Allen,N.B., Wilbrecht,L., a Sileiman, A.B.(2018) Importance of Investing in adolescence from a developmental science perspective. Nature, 554 (7693), 441-450.

[14] Boys 2 men when puberty and adolescence collide – Additude 2020



TERFYNOL

Yn gynnar yn y 1990au, dechreuodd ymchwilwyr wneud cysylltiadau rhwng sut y gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod lywio rhai ymatebion ymddygiadol. Canfuwyd y gall profiadau cynnar gael effaith enfawr ar yr ymennydd sy'n datblygu a'r cysylltiadau sy'n ffurfio ynddo. Mewn achosion lle mae plentyn wedi bod yn destun perygl a bygythiad parhaus, gall ei ymennydd ffurfio cysylltiadau cryfach o ran rhoi sylw i olygfeydd, synau ac arogleuon (gor-wyliadwriaeth), ond cysylltiadau gwannach ar gyfer ysgogiad a rheolaeth emosiynol. Neu lle mae baban wedi tyfu i fyny gyda rhoddwr gofal sy’n absennol yn emosiynol/anghyson neu anrhagweladwy, gall hyn greu anawsterau pan fydd y plentyn yn ceisio ffurfio perthynas agos ac ymddiriedus ag eraill. Mae hyn oherwydd ei anallu yn y gorffennol i ddeall neu ragweld ymddygiadau ei ofalwyr.

Ers y 1990au, mae ymchwil wedi canfod yn gyson bod cyfraddau uchel o ymddygiadau byrbwyll, gorfywiog a diffyg sylw yn bodoli yn y rhai sydd â hanes trawma cymhleth (Boney-McCoy a Finkelhor)[15]. Os yw plentyn neu unigolyn ifanc yn dangos lefelau uchel iawn neu isel iawn o emosiwn, p'un a oes ganddo ADHD neu symptomau trawma cymhleth, bydd yn gallu goddef llai o straen. P’un a yw plentyn yn or-adweithiol neu’n anymatebol, gall hyn olygu ei fod wedi cael ei wthio y tu allan i’r hyn y gall ei oddef, neu ei ‘ffenestr goddefgarwch’ (Ogden a Minton, 2000; Siegel, 2010)[16].

Mae gan bawb lefel benodol o straen y gall ymdopi ag ef nes iddo fynd yn ormod i'w oddef. Mewn plant ag anawsterau rheoleiddio emosiynol, gall eu ffenestri fod yn llawer llai nag eraill.

Canfu astudiaeth ym 1996 fod bron i draean o blant a gafodd eu cam-drin yn ddifrifol yn bodloni'r meini prawf diagnostig ar gyfer ADHD[17]. Yn 2011, canfu astudiaeth arall fod gan grŵp o blant mewn ysbyty â diagnosis ADHD bob un hanes o drawma cronig. Roedd 76% o'r plant hynny hefyd wedi bod yn y system ofal o'r blaen, gyda 50% arall yn adrodd am gam-drin corfforol blaenorol.[18]

Nid oes unrhyw awgrym bod B wedi cael ei gam-drin yn ddifrifol. Mae’n bosibl y gallai ei ddiagnosis ADHD fod wedi ‘cuddio’ rhyw ymateb emosiynol heb ei ddatrys i brofiadau niweidiol ei blentyndod cynnar, ac ynghyd â’r ymateb i’r ddamwain car (gweler tudalen 24) y cafodd gymorth ar ei gyfer, efallai y bu straenachoswyr parhaus yn effeithio ar ei gyflwr emosiynol nac aed i’r afael â nhw. Nid yw’n bosibl dod i unrhyw gasgliadau pendant ar y mater hwn ond o safbwynt dysgu, gallai fod yn ddefnyddiol i ymarferwyr sy’n gweithio gyda phlant ag ADHD ystyried a ydynt wedi profi trawma neu straen ac ystyried eu hanes o safbwynt amgylcheddol.

Er bod yr wybodaeth hon yn rhoi mewnwelediad defnyddiol i ffactorau posibl y gallai bechgyn yn eu harddegau ag ADHD eu hwynebu, ni allai gynnig unrhyw dystiolaeth bendant i banel yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno fod y rhain yn ddylanwadau ym mywyd B, ac mae cyfeirio at y deunydd hwn ar gyfer ymwybyddiaeth ac ystyriaeth o’r myfyrdod ar flaenlencyndod a’r ymchwil academaidd iddo flaenlencyndod yn unig.

**Hanes teuluol y plentyn a gwybodaeth gyd-destunol**

Yn hanesyddol, bu rhywfaint o gysylltiad â’r Gwasanaethau Plant yn gynnar ym mywyd B.

TERFYNOL

[15] Psychosocial sequelae of violent victimization in a national youth sample, Boney-McCoy a Finkelhor
[16] I gael trosolwg o'r model “Ffenestr Goddefgarwch”, gweler yma
[17] Psychiatric comorbidity in childhood posttraumatic stress disorder, Famularo, Fenton, Kinscherff ac Augustyn (1996)
[18] Trauma and ADHD — Association or diagnostic confusion? A clinical perspective, Szymanski, Sapanski a Conway (2011)

Roedd y genogram a ddarparwyd i'r adolygiad gan y teulu yn dangos bod B yn byw i ddechrau gyda'i rieni biolegol a'i chwaer iau yn Ne Cymru. Yn 2009, tra bod B yn dal yn ifanc, ysgarodd ei rieni. Am gyfnod, roedd B yn byw rhwng y ddau riant. Yn y pen draw, yn 2012, cytunodd y llys y byddai B a'i chwaer D yn byw gyda'u tad a'i bartner, K. Daeth cyswllt â'i fam naturiol i ben ar ôl yr amser hwn. Disgrifir B fel un a oedd yn hoff iawn ac yn agos at ei dad, ei chwaer, a'i lysfam; dywedwyd bod B yn meddwl y byd o'i lysfam, K. Nid oedd B wedi cynnal cysylltiad â'i fam naturiol am gyfnod sylweddol o amser.

Byddai gwybodaeth gyd-destunol yn awgrymu y gallai fod wedi dod i gysylltiad â cham-drin domestig a phrofiadau niweidiol eraill yn ystod y cyfnod o amser yr oedd B yn byw gyda'i fam a'i phartner.Roedd B yn hysbys i'r Gwasanaethau Plant ar yr adeg hon, ond nid oedd ar unrhyw adeg yng ngofal yr awdurdod lleol nac yn destun Cynllun Amddiffyn Plant. Bu tri ymchwiliad Adran 47[19] ar wahân lle'r amheuwyd y gallai B fod wedi bod mewn perygl o ddioddef, neu wedi dioddef niwed sylweddol, oherwydd cam-drin domestig ac esgeulustod yn y cartref. Mae adroddiad seicolegydd addysg a ysgrifennwyd yn 2013, (pan oedd B mewn addysg gynradd) yn nodi y gellid priodoli ymddygiadau B i effaith ei brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod cynnar. Roedd y pryderon ar y pryd yn ymwneud ag ymddygiadau B gartref ac yn yr ysgol. Gofynnodd Mr J am gefnogaeth a chymorth i reoli ymddygiadau B dros nifer o flynyddoedd. Mae'n anodd gwybod a oedd hyn o ganlyniad i'w ADHD yn unig neu ffactorau eraill hefyd, fel ei brofiadau anodd yn y blynyddoedd cynnar.

Disgrifiodd Mr J y dechreuad anodd i fywyd a gafodd B, a bod ei fam yn siomedig ar ei enedigaeth gan ei bod hi wedi eisiau merch. Roedd hyn yn rhywbeth yr oedd B yn ymwybodol ohono, ac yn ddealladwy, roedd hon yn wybodaeth anodd iddo ei phrosesu. Roedd yn bwnc yr oedd Mr J wedi'i godi fel rhywbeth yr oedd B wedi bod yn bryderus yn ei gylch.

Yn ystod amserlen yr adolygiad, gwelodd B seicotherapydd therapi gwybyddol ymddygiadol[20], a oedd yn gweithio mewn practis preifat ac yng Ngwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed y GIG. Cyfarfu hi â B wyth gwaith ar gyfer sesiynau Therapi Gwybyddol Ymddygiadol preifat ar gyfer symptomau seicolegol difrifol yn ymwneud â damwain car a ddigwyddodd yn 2015.[21] Ysgrifennodd y seicotherapydd gwybyddol ymddygiadol lythyr at yr ysgol uwchradd newydd (YU2) a chynnwys copi at Mr J, dyddiedig 31 Hydref 2017 lle dywedodd "*wrth gyfarfod â B, mae hefyd wedi dod i'r amlwg ei fod wedi bod yn dioddef bwlio gan fyfyriwr arall ac rwy'n bryderus ynghylch effaith barhaus hyn ar lesiant emosiynol a meddyliol B. Yn fy nghyfarfod diwethaf, roedd newid amlwg yng nghyflwyniad B, sy'n cyfateb i gynnydd a gofnodwyd mewn anawsterau gyda bachgen penodol yn yr ysgol*." Aeth y seicotherapydd gwybyddol ymddygiadol ymlaen i ddweud "*fel y gwyddoch rwy'n siŵr, mae B wedi cael nifer o anawsterau o oed cynnar yn ei fywyd*" Nododd yr ysgol uwchradd newydd (YU2) eu bod wedi cael y llythyr, ond ni wnaethant ymateb yn uniongyrchol iddo gyda'r seicotherapydd gwybyddol ymddygiadol na'i drafod â'r therapydd . Fodd bynnag, bu iddynt drafod y llythyr â thad B, gan nodi eu bod nhw yn ymwybodol bod y disgybl yr oedd B yn cael anawsterau ag ef wedi symud i ysgol arall ers hynny. Credai'r ysgol ei bod wedi rhoi'r holl fesurau

---

[19] Mae adran 47 o Ddeddf Plant 1989, yn ddyletswydd ar awdurdod lleol i ymchwilio pan fydd ganddo achos rhesymol i amau bod plentyn sy'n byw neu sydd yn ei ardal yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol.

[20] Mae Ymarferwyr Therapi Gwybyddol Ymddygiadol yn defnyddio therapi siarad i helpu cleifion i newid patrymau meddwl neu ymddygiad negyddol.Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol

[21] Therapi Gwybyddol Ymddygiadol- therapi siarad a all helpu unigolyn i reoli ei broblemau trwy newid y ffordd y mae'n meddwl ac yn ymddwyn. Mae'n seiliedig ar y cysyniad bod ei feddyliau, ei deimladau, ei deimladau corfforol a'i weithredoedd yn rhyng-gysylltiedig a bod meddyliau a theimladau negyddol yn gallu caethiwo unigolyn mewn cylch cythreulig. Mae therapi gwybyddol ymddygiadol yn delio â phroblemau cyfredol yn hytrach na chanolbwyntio ar faterion o'r gorffennol sydd gan unigolyn. Mae'n edrych am ffyrdd ymarferol o wella cyflwr meddwl unigolyn o ddydd i ddydd.

angenrheidiol ar waith i fynd i'r afael â pha mor agored i niwed yr oedd B a'r materion / pryderon bwlio. Disgrifir graddau'r gefnogaeth hon yn adran adroddiad yr adolygiad sy'n ymwneud ag addysg ac adolygiad YU2 o'u polisi bwlio fel ffynhonnell ddysgu.

Mae'r seicotherapydd gwybyddol ymddygiadol yn nodi; "*Mae'n debygol bod B yn dueddol o ddioddef fregusrwydd iechyd meddwl oherwydd ei flynyddoedd cynnar anodd pan yn byw gyda'i fam fiolegol a'i berthynas wael barhaus gyda hi. Bu'r ffactorau gwaelodol hefyd gan gynnwys bwlio yn ei ysgol flaenorol, a wnaeth ei arwain i adael, yn y gobaith o ddechrau o'r newydd yn eich ysgol*".

Daw'r seicotherapydd gwybyddol ymddygiadol i'r casgliad "*Rwy'n ymwybodol yn gyfreithiol, bod gan bob ysgol bolisïau bwlio a byddwn yn annog dilyn hyn yn yr achos hwn, gan fy mod yn meddwl os bydd y bwlio hwn yn parhau, y bydd iechyd meddwl B yn dirywio. Mae newidiadau eisoes wedi'u hadrodd i gyflwyniad B gartref ac mae B ei hun yn dweud nad yw'n gweithio'n dda yn yr ysgol oherwydd hyn*".

Yn y cyfnod yn arwain at farwolaeth drasig B, adroddodd y teulu, er bod anawsterau parhaus wedi bod gydag anhapusrwydd a fynegodd B am YU2, eu bod hwy, ochr yn ochr â B, yn ystyried ac wedi trafod yn anffurfiol gyfleoedd eraill y gallai B eu harchwilio o bosibl. Yn fwyaf uniongyrchol, roedd hyn yn cynnwys y posibilrwydd y byddai B yn gallu mynychu'r ddarpariaeth porth 14-16 yn y Coleg Addysg Bellach lleol, lle gallai ddilyn ei ddiddordeb mewn astudiaethau marchogaeth a/neu gerbydau modur, a nododd y teulu ei fod yn gyffrous am y posibilrwydd o gael y cyfle hwnnw. Fodd bynnag, ni chytunwyd ar y cynlluniau hyn na'u ffurfioli. Roedd Mr J yn cofio sôn am yr ystyriaeth i Bennaeth Cynorthwyol B, ond nid oedd materion wedi'u symud ymlaen / cyfeirio, fel sy'n orfodol, at Gyrfa Cymru yn unol â'r protocolau ar gyfer cael mynediad at ddarpariaeth o'r fath, ac ni ofynnwyd am ystyriaethau panel ffurfiol i'r coleg AB. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd i'r adolygiad yn nodi ei bod yn ymddangos nad oedd B ei hun wedi penderfynu beth yr oedd am ei wneud yn hyn o beth, a'i fod yn benderfynol o barhau i fynychu'r ysgol ac yntau'n ystyried yr opsiynau a oedd ar gael iddo.

Ar adeg marwolaeth B, mae Mr J a'r teulu yn adrodd nad oedd wedi rhoi unrhyw arwydd ei fod yn bwriadu lladd ei hun neu niweidio ei hun. Ni chafwyd unrhyw rybuddion na digwyddiadau blaenorol o hunan-niweidio. Roedd B wedi bod yn "iawn" y noson gynt ac mewn hwyliau da. Roedd hefyd yng nghwmni aelod o'r teulu sy'n weithiwr iechyd meddwl proffesiynol, na welodd unrhyw bryderon yn ymddangos yn ymddygiad B, nac mewn perthynas â'i hwyliau. Ar y bore olaf wrth iddo adael am yr ysgol, roedd B yn sgwrsio'n fywiog am y penwythnos o'i flaen, a'r cynlluniau roedd y teulu wedi'u gwneud. Roedd y sgwrs olaf gyda'i dad yn un hwyliog, dywedwyd yr enw cyfeillgar roeddent yn ei ddefnyddio ac atgoffodd B ei dad i beidio ag anghofio "prynu petrol" ar gyfer ei feic cwad gan fod ganddo gynlluniau ar gyfer y noson honno.

**Asiantaethau a oedd yn ymwneud â'r unigolyn ifanc**

Rhestrir yr asiantaethau dan sylw ar dudalen 24.

**Dysgu ar lefel ymarfer a sefydliad**

*Nodwch bob <u>pwynt dysgu</u> unigol sy'n codi yn yr achos hwn (gan gynnwys amlygu ymarfer effeithiol) ynghyd ag amlinelliad byr o'r <u>amgylchiadau perthnasol</u>.*

Mae'r ymarfer a'r dysgu sefydliadol a nodwyd wedi'u tynnu o elfennau allweddol canlynol yr adolygiad:

TERFYNOL

- Cynhyrchu llinell amser amlasiantaethol a dadansoddiad cyfunol gan asiantaethau;
- Cynnal digwyddiad cyn dysgu ar gyfer staff yr ysgol, a gynhaliwyd yn yr ysgol ac a hwyluswyd gan gadeirydd y panel adolygu;
- Digwyddiad cyn dysgu ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol a gynhaliwyd o bell trwy gyfrwng Microsoft Teams wedi'i hwyluso gan yr adolygydd annibynnol a chadeirydd y panel adolygu;
- Digwyddiad dysgu i weithwyr proffesiynol (a gynhaliwyd o bell trwy gyfrwng Microsoft Teams o dan reoliadau COVID-19),
- Digwyddiadau llais cyn ddisgyblion x 2 (ar gyfer dysgwyr sydd wedi cofrestru mewn dau goleg AB, a oedd wedi mynychu YU2 yn flaenorol ac a oedd yng ngrŵp blwyddyn B);
- Plant / pobl ifanc a'u rhieni o grŵp blwyddyn B a ddewisodd rannu eu profiadau;
- Safbwyntiau teulu a ffrindiau'r dyn ifanc;
- Ymgynghori â gweithwyr proffesiynol unigol a oedd yn ei adnabod yn dda ac a oedd wedi gweithio gydag ef / neu wedi cael sgwrs ag ef ar adegau penodol yn ei fywyd, yn berthnasol i linell amser yr adolygiad a hefyd ei wybodaeth gyd-destunol;
- Trafodaethau yng nghyfarfodydd y panel adolygu;
- Adolygiad o gofnodion yr achos;
- Dadansoddiad yr adolygydd annibynnol a'r cadeirydd; ac
- Adolygiad o lenyddiaeth.

**Trefniadau addysg a phontio**

Cyn cofrestru yn YU2, mynychodd Mr J, ei bartner K, a chwaer B, D, noson agored ym mis Mehefin 2016. Hysbysebwyd y noson ar gyfer darpar ddisgyblion oed cynradd; ond, defnyddiodd y teulu'r noson fel cyfle i ymweld â'r ysgol. Cyflwynodd Mr J ei hun i'r Pennaeth, Miss R, ac i Bennaeth Pontio / Blwyddyn 7, a buont yn trafod B a'i sefyllfa. Roedd Mr J yn chwilio am ysgol uwchradd arall gan fod B wedi cael anawsterau niferus yn ei ysgol uwchradd gyntaf, yr oedd yn ei mynychu ar hyn o bryd. Esboniodd Mr J nad oedd B yn 'angel' ond y byddai'n elwa o gael 'dechrau o'r newydd'. Eglurodd Mr J ei fod wedi clywed bod gan YU2 enw rhagorol yn y gymuned ac, o edrych yn ôl, y dylai fod wedi gwneud cais i B fynychu YU2 o ddechrau Blwyddyn 7. Bryd hynny, nid oedd yr ysgol yn gallu cynnig lle i B ar unwaith, gan fod grŵp Blwyddyn 7 yn orlawn ac oherwydd cwrteisi, byddai angen i'r pennaeth hefyd siarad ag ysgol bresennol B (yr ysgol uwchradd gyntaf).

Mewn ymateb i ymholiad Mr J, cynigiodd yr ysgol 'ymweliad blasu' tridiau unigryw ar 27/29 Mehefin 2016. Nid yw hyn yn rhywbeth y mae'r ysgol yn ei wneud fel mater o drefn, ond, y tro hwn teimlwyd y byddai hyn yn helpu B i gael profiad gwell o'r ysgol, cyn ymrwymo'n llawn iddi.

Ar 22 Mehefin 2016 cysylltodd Miss R, Pennaeth Blwyddyn 7 YU2, ag adran lles addysg yr awdurdod lleol i ofyn a allai'r ysgol gynnig cyfnod rhagflas i B. Dywedasant y byddai angen cytuno ar hyn rhwng y ddwy ysgol (YU1 ac YU2); trafodwyd a chytunwyd ar hyn felly hwyluswyd hyn gan y penaethiaid, gan alluogi B i fanteisio ar gynnig unigryw'r cyfnod blasu tri diwrnod.

Yn ystod y cyfnod tri diwrnod, siaradodd y pennaeth â B ar sawl achlysur. Er nad oedd B yn adnabod llawer o ddisgyblion eraill yn YU2, roedd yn ymddangos yn fodlon ac yn hapus i gymryd rhan mewn sgwrs.

Ar 30 Mehefin 2016, cyfarfu Miss R â Mr J a chynigiodd le i B ddechrau yn YU2. Cofrestrodd B yn YU2 ar 5 Gorffennaf 2016. Roedd wedi parhau ar gofrestr YU1, er iddo beidio â mynychu YU1 ar ôl 12 Ebrill 2016.

Roedd y trefniadau pontio a chyflwyniad i YU2 ar gyfer B yn un wedi'i gynllunio'n dda ac wedi'i deilwra, ac mae'n ymddangos ei fod wedi mynd y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael fel arfer. Amlygir y trefniant pontio pwrpasol hwn fel enghraifft o 'arfer da', a allai fod yn ddefnyddiol i ysgolion eraill ei ddilyn wrth dderbyn disgyblion sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, nid oedd gwasanaeth nyrsio'r ysgolion yn rhannu gwybodaeth rhwng y ddwy ysgol wahanol mor amserol. Cydnabyddir y gallai hyn fod wedi'i hwyluso'n well, er mwyn galluogi'r rhai a oedd yn cefnogi B i ddod yn gyfarwydd â'i anghenion iechyd unigol yn gynt.

**Arferion da a nodwyd**

- Gwnaeth YU2 gynnig proses bontio gadarnhaol bwrpasol, unigryw ac wedi'i theilwra'n unigol ar gyfer B, gyda sesiynau rhagflas yn cael eu cynnal am dri diwrnod cyn i B gofrestru yn yr ysgol.
- Roedd cyfathrebu rhwng y staff a'r rhieni drwy gydol y broses bontio yn gadarnhaol, felly hefyd y sgyrsiau gyda B.

**Safbwynt y teulu**

- Cydnabu'r teulu y sesiynau cyflwyno proffesiynol a drefnwyd gan YU2 i helpu B i bontio o'i ysgol flaenorol.
- Roeddent yn teimlo bod yr ysgol uwchradd newydd (YU2) yn ysgollai o faint, roeddent hefyd wedi ystyried data perfformiad YU2, ac yn teimlo ei bod yn amgylchedd llawer gwell i B nag ysgol fwy o faint.
- Roedd y teulu yn edifar nad oeddent wedi gwneud cais ym mlwyddyn 7 i B fynychu YU2.

**Dysgu**

- Mae gweithdrefn bwrdd iechyd mewn perthynas â threfniadau trosglwyddo plant wrth symud i ymarferydd arall o fewn y gwasanaeth nyrsio ysgol wedi'u datblygu a'u rhoi ar waith.

**Addysg a chymorth ar gyfer anghenion addysgol arbennig (AAA)**

Mynychodd B dair ysgol; yr ysgol gynradd o 2007 i 2015, YU1 o fis Medi 2015 i fis Ebrill 2016, ac YU2 o fis Gorffennaf 2016 tan fis Medi 2018.Nodwyd bod gan B anghenion addysgol arbennig (AAA) ym Mlwyddyn 3 yn yr Ysgol Gynradd, pan gafodd ddiagnosis o ADHD. Darparwyd adnoddau iddo trwy Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Mae'n ymddangos bod anawsterau B wedi bod yn amlwg drwy gydol ei fywyd ysgol.Mae'n bwysig nodi y rhain, er eu bod y tu allan i'r amserlen adolygu, gan eu bod yn darparu gwybodaeth gyd-destunol hollbwysig.

Mae'r ysgol yn cofnodi tystiolaeth bod B wedi cael nifer o faterion ymddygiadol drwy gydol ei amser yn yr ysgol. Yn ogystal, roedd cofnodion ysgol yn nodi nifer o faterion yr adroddwyd eu bod nhw wedi digwydd yn y cartref. Mae adroddiad seicolegydd addysg yn nodi bod B wedi'i gyfeirio at y Gwasanaeth Seicoleg

Addysgol pan oedd ym Mlwyddyn 5 ym mis Tachwedd 2013. Prif feysydd pryder o'r ysgol oedd ei ymddygiad, ei ymddygiad ymosodol a bod yn gorfforol tuag at ei gyfoedion a'r staff. Mae adroddiad y seicolegydd addysg yn cyfeirio at nifer o faterion a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Os byddwn yn canolbwyntio ar y digwyddiadau o fewn amserlen yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno hwn, gallwn weld bod anawsterau parhaus gan B yn yr ysgol, ac wrth deithio ar y bws ysgol, o ran bod yn ddioddefwr bwlio ac yn gyflawnwr ymddygiad o'r fath. O ystyried yr wybodaeth hanesyddol mewn perthynas â phrofiadau blaenorol B, mae'n ymddangos bod hyn yn dilyn patrwm cyfarwydd. Fodd bynnag, dylid nodi, am gyfnod cyn ei farwolaeth, roedd B yn destun llai o ymyriadau gan yr ysgol ar gyfer materion ymddygiad. Dywedwyd hefyd ei fod yn gwneud cynnydd academaidd da a'i fod, yn nhymor y gwanwyn a haf 2018, wedi bod yn gyfaill i ddisgybl hŷn, y nodwyd ei fod yn ddylanwad cadarnhaol ar B.

I asesu ei allu gwybyddol, safodd B, fel pob disgybl arall, brawf gallu gwybyddol ar 21 Medi 2016. Roedd B yn safle 67 allan o 100 yn ei grŵp blwyddyn. Roedd ei sgôr gymedrig o 94 yn awgrymu y gallai ennill o leiaf 5 cymhwyster TGAU graddau A* i C. O ran ymwybyddiaeth ofodol, roedd ei sgôr o 117 yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 100.

Safodd B brofion llythrennedd, rhifedd a rhesymu mathemategol Llywodraeth Cymru ym Mlynyddoedd 8 a 9. Gwnaeth B gynnydd arbennig o dda yn academaidd pan yn YU2. Erbyn Mai 2018, roedd sgôr B o 117 yn ei osod yn y categori 'mwy galluog'. Gosodwyd B mewn band is yn YU1, ond yn YU2 cafodd ei osod mewn setiau gwahanol ar gyfer gwahanol bynciau. Byddai hyn yn caniatáu i B wneud cynnydd mewn gwahanol bynciau ar gyfradd briodol i'w allu. Roedd B yn setiau 2, 3 a 4 (4 oedd yr isaf) yn dibynnu ar y pwnc.

Mae dyletswyddau awdurdodau lleol yn deillio o Ddeddf Addysg 1996[22], Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002[23] a Chod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2002[24].Mae'r cod yn canolbwyntio ar waredu'r rhwystrau i gyfranogiad a dysgu. Mae'n rhoi cyngor ymarferol i awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir, lleoliadau Blynyddoedd Cynnar ac eraill ar gyflawni eu dyletswyddau statudol i nodi, asesu a darparu ar gyfer AAA dysgwyr.

Yn ei drafodaethau â'r adolygydd annibynnol a chadeirydd y panel, awgrymodd Mr J nad oedd anghenion addysgol arbennig B yn cael eu diwallu'n briodol o dan y ddeddfwriaeth a'r cod ymarfer uchod. Credai y dylai B fod wedi cael datganiad anghenion addysgu arbennig (AAA) a dyrannu cynorthwyydd addysgu iddo, yn enwedig yn ystod amser egwyl, pan allai B, yn ôl Mr J, fod yn fwy agored i niwed.

Cyfarfu Mrs J, Pennaeth Dysgu YU2, â Mr J ar 29 Medi 2016, yn fuan ar ôl i B ddechrau yn yr ysgol. Dywedodd YU2 nad oedd unrhyw gyfeiriadau at asesiadau AAA yn cael eu cynllunio nac yn ofynnol mewn perthynas â B. Nid oes cofnod o unrhyw gais gan Mr J i B gael datganiad ac ni wnaethpwyd cais am ddatganiad. Ni chynhaliwyd unrhyw asesiadau anghenion addysgu arbennig (AAA) ar B. Dywed yr ysgol nad oedd B yn perfformio fel disgybl AAA yn academaidd. Cafodd ei ddosbarthu fel AAA, ac roedd ganddo

[22] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/contents
[23] https://www.legislation.gov.uk/wsi/2002/152/contents/made/welsh
[24] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cod-ymarfer-anghenion-addysgol-arbennig-cymru.pdf

hawl i Weithredu gan yr Ysgol a Mwy Cymru[25] oherwydd ei ddiagnosis o ADHD a'i gefnogaeth o ganlyniad i golli clyw gan asiantaethau allanol.

Yn ogystal â Deddf Addysg 1996 a'r cod ymarfer cysylltiedig, cyfeiriwyd at y canllawiau a gymerwyd o "Sgrinio, asesu ac ymyrryd ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu penodol" - (Dogfen gyfarwyddyd rhif: 164/2015 Dyddiad cyhoeddi: Awst 2015 Llywodraeth Cymru)[26].

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi gwybodaeth i awdurdodau lleol a darparwyr addysgol am sut i nodi dulliau sgrinio, asesu ac ymyrryd effeithiol sydd ar gael ar hyn o bryd i ddysgwyr ag anawsterau dysgu penodol. Mae hyn yn galluogi awdurdodau lleol ac ymarferwyr addysgu i sicrhau mwy o gysondeb wrth nodi dysgwyr ag anawsterau dysgu penodol a chymhwyso ymyriadau priodol i helpu i ddiwallu eu hanghenion dysgu.

Yn y canllawiau hyn, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd neu ADHD yw'r term ymbarél a ddefnyddir i ddisgrifio cyflwr sy'n effeithio ar dalu sylw, canolbwyntio, byrbwylltra, lefelau gweithgarwch a chof unigolion (mae anhwylder diffyg canolbwyntio wedi'i gynnwys yn hwn). Roedd yr ysgol yn ymwybodol o ddiagnosis ADHD B, a chawsant wybod bod B wedi cael meddyginiaeth ar gyfer ei ADHD a gymerai cyn ysgol. Er nad oedd gan B ddatganiad anghenion addysgu arbennig (AAA) ac felly nid oedd yn gymwys i gael cymorth un i un gan gynorthwyydd addysgu, mae'r ysgol yn adrodd bod B yn gallu cael cymorth o'r fath gan gynorthwywyr addysgu a oedd yn bresennol yn y rhan fwyaf o'i wersi. Mae'r ysgol yn adrodd bod gallu academaidd B wedi'i asesu mewn perthynas â phob maes pwnc a'i fod wedi'i roi mewn setiau addysgu yn unol â hynny. Yn y digwyddiadau llais cyn-ddisgyblion a gynhaliwyd fel rhan o'r broses Adolygiad Ymarfer Plant Cryno hysbyswyd yr adolygiad bod cynorthwywyr addysgu yn bresennol mewn llawer o ddosbarthiadau B a'u bod yn hygyrch i bob disgybl.

Adroddodd yr ysgol, ym mlwyddyn lawn gyntaf B o ymrestru yn YU2 (o fis Medi 2016 – Awst 2017, sef Blwyddyn 8), bod B wedi gallu cael cymorth gan gynorthwyydd addysgu mewn 68% o'i wersi (34 awr allan o 50 posibl mewn amserlen pythefnos). Byddai hyn wedi cynnwys ei holl bynciau craidd, gan gynnwys Mathemateg, Saesneg, Gwyddoniaeth, Addysg Grefyddol, a Chymraeg, yn ogystal â'r rhan fwyaf o bynciau eraill, megis Hanes, Daearyddiaeth a Ffrangeg. Roedd yr ysgol hefyd yn cynnig clwb amser cinio ar gyfer unrhyw ddisgyblion a oedd angen cymorth ychwanegol.

Ym Mlynyddoedd 9 a 10, roedd B yn gallu cael cymorth gan gynorthwyydd addysgu mewn 76% o'i wersi (38 awr allan o 50 posibl mewn amserlen pythefnos).

O adolygu'r wybodaeth a gyflwynwyd gan YU2, mae'n rhesymol dod i'r casgliad bod B yn cael cymorth wedi'i deilwra ar gyfer ei anghenion dysgu unigol a bod yr ysgol wedi adrodd eu bod yn dilyn canllawiau a gweithdrefnau priodol. Fodd bynnag, os ydym yn ystyried yr 'arferion gorau' wrth gefnogi disgyblion ag anghenion ychwanegol, yna gallai'r ysgol fod wedi cryfhau eu cymorth drwy gynnwys B a'i deulu fwy wrth gynllunio, cofnodi ac adolygu Cynllun Datblygu Unigol (CDU) B. Gallai cofnod ysgrifenedig wedi'i lofnodi gan bob parti yn egluro sut roedd anghenion unigol B yn cael eu diwallu, gyda chyfraniadau penodol gan B a'i deulu, fod wedi helpu i osgoi unrhyw ddryswch neu amwysedd ynghylch lefel y cymorth a'r gefnogaeth

TERFYNOL

[25] Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy Cymru - cymorth unigol ar gyfer mathemateg / llythrennedd gan gynorthwyydd addysgu. Cymorth grwpiau bach i helpu i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu. Cyfarpar arbennig i helpu gydag ysgrifennu. Rhaglen addysgu arbennig..

[26] Sgrinio, asesu ac ymyrryd - pennu dulliau sgrinio, asesu ac ymyrryd ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu penodol (Dogfen ganllawiau rhif: 164/2015 Dyddiad cyhoeddi: Awst 2015 Llywodraeth Cymru)

a oedd eu hangen ar gyfer B. Byddai hefyd wedi helpu i reoli disgwyliadau a dealltwriaeth y teulu o'r cymorth a ddarparwyd gan YU1 ac YU2. Byddai amserlen glir yn nodi sut y byddai'r cynllun yn cael ei fonitro a'i adolygu hefyd wedi cynnig mwy o eglurder a sicrwydd i B a'i deulu. Dywedodd Mr J ei fod wedi cael ei sicrhau gan YU2 y byddai B yn cael cymorth amser egwyl a chinio pan teimlwyd ei fod fwyaf agored i niwed yn dilyn nifer o achosion o fwlio. Dywedodd yr ysgol y gallai B fod wedi cael cymorth o nifer o ffynonellau pe bai ei angen a bod hyn yn cynnwys amser cinio ac egwyl.

Er mwyn clywed yn uniongyrchol gan ddisgyblion a oedd wedi mynychu YU2 ar yr un pryd â B, hwylusodd adolygydd annibynnol a chadeirydd panel yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno ddigwyddiad adborth / ymgynghori lle gallai cyn ddisgyblion gymryd rhan ‘rhithwir’ neu gyfrannu eu barn yn ysgrifenedig. Roedd yr adborth gan y bobl ifanc hynny a ddewisodd rannu eu profiad o fynychu YU2 yn gadarnhaol iawn ar y cyfan. Roedd barn gyffredinol bod YU2 yn darparu’n dda ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol, a bod staff cymorth ar gael i gynorthwyo disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol.

Dywedodd un unigolyn ifanc “*roedd yr athrawon yn ymwybodol ac yn rhoi cefnogaeth, roedd rhai gwersi lle’r oedd cynorthwyydd cddysgu yn bresennol, roedd un yn nosbarth gofrestru dysgwr, ac roedden nhw yno i helpu unrhyw un.Roedd yna gefnogaeth emosiynol hefyd”.*

Dywedodd yr unigolyn ifanc y bu adegau pan roedd wedi dibynnu ar gynorthwyydd addysgu dysgwr i’w helpu.

Dywedodd unigolyn ifanc arall “*Roeddwn i bob amser yn meddwl bod fy ysgol yn gwneud ei gorau i gefnogi disgyblion ag anghenion ychwanegol, rwy’n meddwl bod ganddyn nhw ddosbarthiadau ychwanegol i’r disgyblion hynny lle roedd staff ar gael i’w helpu gyda phethau*”.

Daeth rhiant ymlaen hefyd, ar ôl i’w merch (a oedd yn yr un flwyddyn â B) gael ei gwahodd i ymuno â'r digwyddiad ymgynghori.Roedd hi’n awyddus iawn i gynnig ei phrofiad am YU2 fel rhiant plentyn ag anghenion ychwanegol (Asperger’s). Roedd ei mab hynaf wedi mynychu YU2 yn flaenorol ac mae bellach yn 20 oed. Disgrifiodd ei mab fel un “gwahanol i’w chwaer, sy’n gyflawnwr uchel” a bod yn well gan ei mab fod ar ei ben ei hun. Disgrifiodd sut roedd YU2 wedi gallu diwallu anghenion ei phlant mewn gwahanol ffyrdd ac oherwydd y cymorth a gafodd ei mab a’r teulu gan YU2, roedd ei mab wedi gallu gwneud cynnydd. Yn ei barn hi, cefnogodd YU2 y plant yn emosiynol ac yn addysgol, yn dilyn marwolaeth B a dywedodd fod “*cynhesrwydd a charedigrwydd yn yr ysgol*”. Gofynnodd i’r datganiad canlynol gael ei gynnwys yn Adroddiad yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno: “*Roedd fy mab wedi trosglwyddo i YU2 o ysgol uwchradd wahanol a chafodd y newid hwn effaith mor gadarnhaol arno.Roedd wedi gallu gwneud cynnydd “da” yn addysgol ac yn gymdeithasol gyda’i gyfoedion oherwydd yr amgylchedd gofalgar a chefnogol yn yr ysgol*”.

**Arferion da a nodwyd**

- Roedd y dull dysgu wedi’i deilwra’n golygu bod B wedi gwneud cynnydd academaidd da yn YU2 – dangosodd ei adroddiad cynnydd diwethaf nad oedd angen ymyriadau arno mwyach ar gyfer llythrennedd a rhifedd.
- Roedd strwythurau bugeiliol a llesiant yn YU2 ar y pryd yn dda. Roedd gan ddisgyblion fynediad at diwtoriaid dosbarth, penaethiaid dysgu, penaethiaid adrannau, dau gwnselydd allanol a thîm llesiant. Roedd gan B nifer o lefydd ‘diogel’ i’w defnyddio yn dibynnu ar y sefyllfa – K, L, M, tîm llesiant, ac M G yn cael eu hadnabod fel pobl y gallai B fynd atynt. Roedd yna glybiau hefyd yn

rhedeg yn ystod amser cinio, gyda chlybiau TG yn y llyfrgell, a dwy ystafell wedi'u staffio bob dydd ar gyfer plant mwy agored i niwed a oedd yn amharod i fynd allan a chymysgu. Roedd B wedi ymgysylltu'n dda â'r arweinydd bugeiliol newydd ac roeddent yn mynd i gyfarfod yn rheolaidd.

- Cofnodwyd presenoldeb ym mhob gwers ar SIMS (system gofrestru ysgolion). Cymerwyd y gofrestr yn brydlon ar ddechrau pob gwers.
- Cymorth cyntaf – cafodd holl staff YU2 hyfforddiant ar gyfer diffibrilwyr ac adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR). Roedd hyn wedi digwydd bythefnos cyn marwolaeth B. Roedd hyn yn caniatáu cynnal adfywio cardio-pwlmonaidd a defnyddio'r diffibriliwr o fewn eiliadau i'r staff gyrraedd lleoliad y digwyddiad trasig.
- Er gwaethaf y lefel uchel o sioc a phryder yr oedd staff yn ei wynebu, rheolwyd y digwyddiad a'i gyfathrebu'n effeithiol i rieni ar y diwrnod. Ni chafodd unrhyw ddisgyblion (ac eithrio chwaer B) eu hamlygu i'r digwyddiad ei hun, a dechreuodd YU2 weithredu eto cyn diwedd y dydd.
- YU2 yw'r unig ysgol uwchradd yn Sir Gaerfyrddin sy'n cael ei hystyried yn gefnogol o anhwylderau'r sbectrwm awtistig (ASD) ar hyn o bryd[27].
- Mae YU2 yn Ysgol Encompass[28] gydnabyddedig.

**Safbwynt y teulu**

- O edrych yn ôl, mae'r teulu'n teimlo bod diffyg didwylledd/ymddiriedaeth yn eu perthynas ag YU2 a'u bod wedi colli hyder yn yr ysgol o Ebrill 2018. Roedd hyn yn bennaf oherwydd cyfres o ddigwyddiadau a dim adborth ar faterion yr oeddent yn deall eu bod yn destun ymchwiliad.
- Teimlai'r teulu fod gwybodaeth mewn perthynas â chael mynediad at bolisïau, gweithdrefnau a phrosesau perthnasol o fewn yr ysgol yn anodd ac y dylai cyfathrebu fod wedi bod yn well yn hyn o beth.
- Nid yw Mr J a'i deulu'n credu bod B wedi cael cymorth unigol digonol gan YU2 fel disgybl ag anghenion ychwanegol ac nad oedd pob achos o fwlio yn erbyn B wedi'u cofnodi'n ddigonol nac wedi'u trin gan YU2. Eu dealltwriaeth nhw oedd bod ganddo gefnogaeth un i un.
- Mae gan y teulu bryderon ynghylch sut y daeth D (chwaer B) i'w chynnwys yn y broses o ganfod B, a sut y cafodd hynny ei reoli a sut y caniatawyd iddo ddigwydd.
- Teimlai'r teulu hefyd y bu diffyg cyfathrebu â nhw ar ôl marwolaeth B ac amharodrwydd i ateb eu cwestiynau neu roi eglurder ynghylch diwrnod y digwyddiad trasig.
- Ni allai'r teulu ddeall pam arhosodd B ar ôl yn yr ystafell ddosbarth i dacluso ar ôl i'w ddosbarth olaf ddod i ben gan nad oedd B byth yn tacluso dim byd.

---

[27] Mae Cyfeillgar i Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASD) - yn golygu bod yn ymwybodol o ymgysylltiad cymdeithasol a ffactorau amgylcheddol sy'n effeithio ar bobl ar y sbectrwm awtistig, sy'n addasu dulliau cyfathrebu ac yn cynnig lle ffisegol sy'n gweddu'n well i anghenion unigryw ac anghenion arbennig unigolion.
[28] Encompass - Mae Ymgyrch Encompass yn bartneriaeth diogelu unigryw rhwng yr heddlu ac addysg sy'n cynnig ymyrraeth gynnari sicrhau bod ysgol plentyn yn cael ei hysbysu, **cyn** dechrau'r diwrnod ysgol nesaf, bod plentyn neu unigolyn ifanc wedi dod i gysylltiad â digwyddiad o gam-drin domestig.

**Dysgu**

- Mae'r system gofrestru yn YU2 wedi'i datblygu ymhellach. Bellach mae gan bob ystafell ddosbarth ffôn. Nid oedd gan rai staff fynediad i SPARK (y system flaenorol). Nawr gall yr holl staff gael mynediad i'r system newydd sy'n seiliedig ar e-bost.
- Ar adeg marwolaeth B, nid oedd polisi gwrth-fwlio YU2 yn gadarn nac yn adlewyrchu canllawiau ac arferion gorau cyfredol. Ers hynny mae'r ysgol wedi datblygu polisi newydd sydd wedi'i gadarnhau'n ffurfiol gan y corff llywodraethu ac sydd bellach yn cael ei ddefnyddio. Dylid nodi bod hyn yn gydnaws â'r canllawiau cenedlaethol mwyaf diweddar.[29]
- Mae angen cryfhau llais plant a chyfranogiad disgyblion yn YU2 a chynnwys disgyblion wrth adolygu polisïau ysgol perthnasol. Bydd angen i YU2 a'u corff llywodraethu weithredu ar hyn, i ddod yn rhan annatod o'r broses "cymeradwyo".
- Roedd B yn gysylltiedig â sawl digwyddiad ar y bws ysgol. Efallai y bydd yr awdurdod lleol am ystyried defnyddio trefniadau cludiant amgen ar gyfer disgyblion heb ddatganiad mewn amgylchiadau eithriadol fel hyn.
- Nid oedd gwybodaeth cefnogol am iechyd a llesiant ar gael yn hygyrch i ddisgyblion ee, bwlio, iselder, straen ac ati ac nid oedd gwybodaeth am wasanaethau cymorth iechyd a llesiant ar gael yn eang nac yn ddigon hygyrch i bob disgybl. Mae angen i YU2 sicrhau bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei diweddaru'n rheolaidd, yn hygyrch, ac yn cael ei hyrwyddo'n eang ar draws campws yr ysgol gyfan.
- Gall staff addysg elwa ar hyfforddiant gan sefydliad arbenigol fel PAPYRUS (elusen ar gyfer atal hunanladdiad ymhlith pobl ifanc). Gellid cydlynu hyn ar lefel awdurdod lleol gan alluogi pob ysgol i gymryd rhan. Nodir bod y tîm bugeiliol yn YU2 eisoes wedi cael hyfforddiant yn ymwneud â hunanladdiad a hunan-niwed yn dilyn marwolaeth B.
- Yn dilyn marwolaeth sydyn a thrasig disgybl, mae angen cefnogaeth emosiynol ac ymarferol ar staff yr ysgol. Er bod hyn yn dda ar y cyfan, yn syth ar ôl y digwyddiad mae ei angen yn y tymor hwy hefyd, ynghyd â goruchwyliaeth dda i ganolbwyntio ar yr effaith weddilliol, gyda chymorth iechyd galwedigaethol parhaus ar gael yn hawdd os a phan fo ei angen.
- Mae cyflwyno EduKey a ClassCharts yn ddatblygiad i'w groesawu, ond mae angen ei gynnal a'i wreiddio. Dylid cynnal adolygiad o'u heffaith ar ôl deuddeg mis o'u gweithredu, ochr yn ochr â'u defnydd mewn trefniadau pontio gyda darparwyr partner a chydymffurfedd â Cadw Dysgwyr yn Ddiogel.[30]

## Arferion adferol

"Yn wahanol i ddulliau cosbi, lle mae 'trydydd parti' yn gweithredu fel barnwr, rheithgor ac yn gosod y gosb, mae arfer adferol yn rhoi perchnogaeth ymddygiad a gwrthdaro yn nwylo'r rhai sy'n gysylltiedig yn

[29] Hawliau, parch, cydraddoldeb: Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, Tachwedd 2019
[30] Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 283/2022 Llywodraeth Cymru cyhoeddwyd Mawrth 2022

uniongyrchol, a hwythau fydd hefyd yn gyfrifol am ddatrys y broblem"[31]. Defnyddir 'arferion adferol' yn effeithiol mewn ysgolion. Yn seiliedig ar ymchwil a dadansoddi dulliau rheoli ymddygiad, eu nod yw darparu strategaeth a mecanwaith wedi'u diffinio'n glir i ysgolion i gefnogi ac annog ymddygiad cadarnhaol yn yr ystafell ddosbarth a chymuned yr ysgol gyfan.

Pryder allweddol i'r teulu ac i'r rhai a oedd yn ymwneud â B oedd y digwyddiadau a'r adroddiadau am "fwlio"[32] a materion ymddygiad lle'r oedd B yn ddioddefwr ac yn gyflawnwr."Mae gan bob dysgwr ym mhob ysgol yr hawl i ddysgu, a hynny'n rhydd rhag bwlio, ar ba bynnag ffurf.Dylai pawb sy'n rhan o addysg dysgwr weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod dysgwyr yn rhydd rhag bwlio."[33] ('Parchu Eraill:Trosolwg Gwrth-fwlio,' Llywodraeth Cymru, Medi 2011).[34] Yr ysgol a'r teulu oedd yn gyfrifol am reoli'r digwyddiadau hyn yn bennaf.Roedd y cyfle i'r ysgol fabwysiadu dull adferol yn ddymunol, ond nid oedd bob amser yn amlwg felly i'r teulu, a oedd yn gweld nad oedd B bob amser yn destun y dull hwn.

Yn yr un modd â dwy ysgol flaenorol B, roedd B yn gysylltiedig â nifer o ddigwyddiadau ymddygiadol a bwlio, fel yr gweithredwr a'r dioddefwr pan yn YU2. Mae'r ysgol yn credu yr ymchwiliwyd yn briodol i bob digwyddiad o'r fath, a hysbyswyd teulu B yn ôl yr angen. Yn ystod ei gyfnod yn YU2, adroddir iddo wneud cynnydd. Yn ogystal â'i berfformiad academaidd gwell, adroddodd yr ysgol fod gostyngiad amlwg yn nifer y digwyddiadau ymddygiad (yn enwedig yn nhymor y gwanwyn) yr oedd B yn gysylltiedig â nhw ac mae cofnodion yn nodi hyn fel y nodir isod:

| Blwyddyn 8 | Blwyddyn 9 |
|---|---|
| Tymor yr hydref – 14 digwyddiad | Tymor yr hydref – 14 digwyddiad |
| Tymor y gwanwyn – 9 digwyddiad | Tymor y gwanwyn – 1 digwyddiad |
| Tymor yr haf – 3 digwyddiad | Tymor yr haf – 5 digwyddiad |

Mewn cyfarfod a gafodd yr adolygydd annibynnol a chadeirydd y anel gyda Mr J, cododd ddigwyddiad honedig lle'r oedd disgybl arall wedi cyffwrdd â B yn amhriodol. Roedd y digwyddiad honedig hwn wedi achosi trallod sylweddol i B a'i deulu. Fodd bynnag, nid oedd yn hawdd adnabod y digwyddiad honedig hwn yn y cofnodion llinell amser a gyflwynwyd gan YU2 ar gyfer yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno. Oherwydd pryder Mr J am y digwyddiad hwn, gofynnwyd i YU2 am y digwyddiad a chadarnhawyd eu bod yn deall bod y mater wedi cael ei drin yn briodol yn unol â'u gweithdrefnau perthnasol.

Wrth archwilio'r digwyddiad hwn fel rhan o broses Adolygiad Ymarfer Plant Cryno, roedd yn amlwg nad oedd yr Arweinydd Diogelu Dynodedig (DSL) a'r Pennaeth yn ymwybodol o'r digwyddiad ar yr adeg y digwyddodd. Teimlai'r Pennaeth Blwyddyn a fu'n delio â'r digwyddiad fod y sefyllfa wedi'i hymchwilio a'i datrys yn foddhaol, heb fod angen uwchgyfeirio na gweithredu gweithdrefnau diogelu. O edrych ar y digwyddiad hwn yn ôl-weithredol gyda'r pennaeth, cydnabuwyd ganddo pe bai ef, neu ei arweinydd diogelu wedi cael gwybod am y sefyllfa ar y pryd, y byddent wedi cynghori y dylid adrodd ac ymchwilio i'r digwyddiad o dan weithdrefnau diogelu'r ysgol a gweithdrefnau diogelu amlasiantaeth lleol gan fod hon yn

[31] Restorative Practice in Schools – Paul Howard 2009
[32] Bwlio - Ymddygiad gan unigolyn neu grŵp, sy'n cael ei ailadrodd yn raddol dros gyfnod, sy'n niweidio eraill yn fwriadol, naill ai'n gorfforol neu'n emosiynol. (gweler canllawiau Llywodraeth Cymru)
[33] Parchu Eraill: Trosolwg Gwrth-fwlio, Llywodraeth Cymru, Medi 2011
[34] https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-11/respecting-others-schools-inspiring-rights-respect-and-equality-preventing-and-challenging-bullying_0.pdf

sefyllfa o gam-drin honedig 'rhwng cyfoedion'[35] ac yn ymosodiad rhywiol honedig.Gallai hyn fod wedi galluogi dealltwriaeth ddyfnach o effaith y digwyddiad penodol hwn ar B a rhoi gwybodaeth hanfodol i'r teulu ynghylch canlyniad unrhyw ymchwiliad**.** Byddai hefyd wedi hwyluso cyfranogiad asiantaethau eraill, ac wedi caniatáu trafod strategaeth broffesiynol o dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008[36]. Yn ystod y digwyddiad hwn, adroddodd y teulu fod B wedi dioddef anaf i'w law ac roedd angen triniaeth yn yr ysbyty. Roedd cadarnhad o bresenoldeb B yn yr ysbyty yng nghofnodion y meddyg teulu. Roedd wedi bod mewn adran mân anafiadau bwrdd iechyd cyfagos, lle cofnodwyd bod B wedi mynychu'r ysbyty gyda'i dad a'i lysfam. Yr esboniad a roddwyd am yr anaf i'w law oedd bod B yn chwarae pêl-fasged ac wedi taro ei law yn erbyn chwaraewr arall.

Rhoddwyd ystyriaeth briodol i gofnodion yr ysgol.Maent yn amlinellu'n glir y digwyddiadau niferus a nodir uchod, yn fanwl ac mae'r cofnodion yn cynnwys camau gweithredu'r ysgol mewn ymateb i'r rhain. Mae'r adolygydd annibynnol wedi cyfeirio'n benodol at lythyr gan y Seicolegydd Therapi Gwybyddol Ymddygiadol dyddiedig 31 Hydref 2017, gan fod hyn yn peri pryder arbennig i'r teulu. Maen nhw'n awgrymu na roddwyd unrhyw arwyddocâd i'r llythyr hwn gan yr ysgol ac maent yn credu ei fod yn cynnig cipolwg clir ar anawsterau B oherwydd bwlio. Eglurodd y Seicolegydd Therapi Gwybyddol Ymddygiadol ei bod wedi cyfarfod â B '*wyth gwaith ar gyfer sesiynau therapi gwybyddol ymddygiadol preifat ar gyfer symptomau seicolegol difrifol yn ymwneud â damwain car yn 2015.*' Mae'r llythyr yn nodi bod B yn cael ei fwlio gan blentyn, X. Mae'r ysgol yn datgan ei bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau amrywiol rhwng B ac X, ac wedi delio'n briodol â nhw. Roedd X yn blentyn â chefndir cartref cymhleth a oedd hefyd yn cael trafferth rheoli ei ymddygiad. Yn gynnar ym mis Tachwedd, penderfynodd gofalwr X ei symud i ysgol arall. Ei ddiwrnod olaf yn YU2 oedd 23 Tachwedd 2017. Roedd y materion a godwyd yn y llythyr i bob pwrpas wedi'u datrys erbyn i'r ysgol ei gael, oherwydd erbyn y dyddiad hwnnw roedd yr ysgol yn ymwybodol bod X yn gadael. Yn dilyn y cyfnod hwn, adroddodd yr ysgol fod B yn parhau i gael mynediad at y gweithiwr ieuenctid yn yr ysgol a'i fod yn cael ei annog i ddefnyddio ei wasanaethau yn ôl yr angen.

Adroddodd YU2 fod B yn cael cyfleoedd yn rheolaidd i gael cymorth bugeiliol gan ystod o staff. Roedd y rhain yn cynnwys mynediad at y pennaeth dysgu, athro dosbarth, uwch aelodau staff, athrawon dosbarthiadau, cwnselydd 'A' (gwasanaeth cwnsela annibynnol yn yr ysgol yw *'A'*), gweithiwr ieuenctid yn yr ysgol, pennaeth llesiant, goruchwylwyr canol dydd a staff cymorth, gan ddangos bod ystod gynhwysfawr o staff gofal, cymorth ac arweiniad ar gael i bob disgybl. Byddai wedi bod yn bwysig, fodd bynnag, i'r cymorth hwn gael ei amlinellu'n glir i rieni. Yn ei gyfarfodydd gyda'r adolygydd annibynnol a chadeirydd y panel, nid oedd Mr J yn gallu disgrifio'r amrywiol strategaethau a oedd yn cael eu defnyddio gan yr ysgol i gefnogi B, ac o'i safbwynt ef roedd yn glir bod angen mwy o gymorth ar B nag yr oedd yn ei gael. Roedd yn arbennig o bryderus am amser egwyl a beth oedd yn digwydd i B ar y cludiant ysgol. Mae'n deg dweud bod yr atgofion a'r hawliau yn amrywio o ran canfyddiadau Mr J ac YU2.

Cafodd B gymorth gan y Gweithiwr Ieuenctid Ms G yn yr ysgol. Mynychodd B 12 sesiwn un i un gyda Ms G rhwng 15 Medi 2016 a 5 Gorffennaf 2018. Ategwyd at y rhain gan 7 sesiwn galw heibio gyda Ms G rhwng 15 Mai 2017 a 6 Medi 2018.

Mynychodd B gwnsela gan y cwnselydd 'A' ar 12 Hydref 2016, 3 Tachwedd 2016, 7 Rhagfyr 2016, 15 Rhagfyr 2016, a 25 Ionawr 2017. Yn ddiweddarach dewisodd B optio allan o gwnsela, gyda'i sesiwn olaf yn

[35] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/canllawiau-i-leoliadau-addysg-am-gam-drin-rhywiol-camfanteisio-ac-ymddygiad-rhywiol-niweidiol-gan-gyfoedion.pdf
[36] https://www.basw.co.uk/resources/all-wales-child-protection-procedures

cael ei chynnal ar 25 Ionawr 2017. Parhaodd B i gael cymorth gan y gweithiwr ieuenctid, a Ms. G, hyd at 6 Medi 2018.

Mae YU2 ac aelodau allweddol o staff yn adrodd eu bod wedi mwynhau perthynas adeiladol a chadarnhaol â Mr J a'i bartner K drwy gydol cyfnod B fel disgybl yn yr ysgol. Maen nhw'n credu bod cyfathrebu â'r teulu wedi bod yn agored ac yn onest. Dywedasant fod teulu B y rhan fwyaf o'r amser yn gefnogol i unrhyw sancsiynau a roddwyd i B. Y prif anghytundeb o ran sancsiynau a roddwyd oedd gwaharddiad undydd a roddwyd i B ym mis Mawrth 2018 yn gysylltiedig â digwyddiad ar y bws ysgol.Ym mis Ebrill 2018 oherwydd y croniad yn yr hyn yr oeddent yn eu gweld yn sefyllfaoedd heb eu datrys, dechreuodd y teulu, deimlo'n siomedig ynghylch sut yr oedd materion yn ymwneud â digwyddiadau gyda B yn cael eu trin, a sut yr oedd eu datrysiadau'n cael eu bwydo'n ôl gan YU2.

Ym mis Medi 2018, ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd roedd pennaeth lles a gofal bugeiliol newydd, Mrs E, wedi'i phenodi ac ymdriniodd â digwyddiad lle'r oedd B yn rhan o ddadl lle'r honnwyd iddo fod yn sarhaus ar lafar i ddisgybl arall. Cymaint oedd y digwyddiad fel y penderfynodd Mrs E y byddai B yn elwa o gymorth bugeiliol ychwanegol ar ffurf sgyrsiau un i un. Cynhaliwyd un sgwrs o'r fath y diwrnod cyn marwolaeth B ar 11 Medi 2018 ac mae nodiadau Mrs E o'r cyfarfod hwnnw'n nodi fel a ganlyn:

"*Gofynnais iddo sut oedd pethau gyda'i gyfoedion. Dywedodd nad oedd neb yn ei boeni, a bod pethau y gorau y buont erioed. Dywedais wrtho, os oedd ganddo fyth unrhyw bryderon i ddod i'm gweld i neu Mr G yn y Swyddfa Fugeiliol.*"

Daw'r wybodaeth ganlynol gan y Gynghrair Gwrth-fwlio:

"*Mae plant a phobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig a/neu Anableddau (AAAA) yn fwy tebygol o brofi bwlio, gan gynnwys bwlio ar-lein. Mae plant ag anableddau weithiau* ***yn fwy tebygol o gael eu bwlio*** *na phlant heb anableddau.Ni ddylid ystyried bwlio, pryfocio ac aflonyddu yn ddefodau newid byd arferol nac yn "blant yn bod yn blant". Gall effeithiau bwlio fod yn ddifrifol, gan gynnwys iselder, hunan-barch isel, problemau iechyd, a hyd yn oed hunanladdiad*".[37]

Mae canllawiau'r gynghrair gwrth-fwlio yn rhoi cyngor ar ddelio â bwlio sy'n ymwneud â phlant ag anghenion addysgol arbennig (AAA) ac anableddau. Fe'i cynlluniwyd i helpu ysgolion fel a ganlyn:

- cefnogi dysgwyr ag anghenion addysgu arbennig ac anableddau
- deall, atal ac ymateb i blant ag anghenion addysgu arbennig (AAA) ac anableddau yn cael eu bwlio
- dileu gwahaniaethu ac aflonyddu ar sail anabledd
- datblygu ethos gwrth-fwlio, a thrwy wneud hynny codi cyflawniad a chyfranogiad mewn amgylcheddau diogel a chadarnhaol
- bodloni rhwymedigaethau diogelu cyfreithiol a chydymffurfedd â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd[38] a deddfwriaeth arall
- adeiladu ar ofynion Cod Ymarfer Anghenion Addysgu Arbennig

[37] https://www.anti-bullyingalliance.org.uk/
[38] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1995/50/contents



TERFYNOL

- cynnal hawl ddynol sylfaenol plant i fod yn rhydd rhag camdriniaeth. Mae'n berthnasol i bob math o ysgol.

Lansiodd Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldeb am ddiogelwch, llesiant ac addysg plant a phobl ifanc cyn Wythnos Gwrth-fwlio 2019[39]. Mae tystiolaeth mai 'dull ysgol gyfan' (Addysg Caergrawnt, 2005)[40] lle mae cymuned yr ysgol gyfan, gan gynnwys y disgyblion, athrawon, staff cymorth; rhieni a'r bwrdd llywodraethwyr, yn ymwneud â mynd i'r afael â bwlio, yw'r dull mwyaf effeithiol o fynd i'r afael â bwlio mewn ysgol.

Mae adroddiadau gan Gomisiynydd Plant Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth a Mencap yn dangos bod plant ag AAA ac anableddau yn fwy tebygol na'u cyfoedion o gael eu bwlio. Canfu arolwg Mencap yn 2007[41] fod wyth o bob deg o ymatebwyr wedi cael eu bwlio a chwech o bob deg wedi cael eu brifo'n gorfforol.

Mae plant ag anghenion addysgu arbennig ac anableddau yn boblogaeth amrywiol.Mae ganddynt lawer o sgiliau a thalentau. Mae ganddynt hefyd ystod eang o anghenion tra gwahanol. Mae hyn yn cynnwys plant ag anghenion iechyd cymhleth, plant ag anableddau dysgu, plant ag amhariadau ar y synhwyrau a phlant ag anghenion cymdeithasol ac ymddygiadol.[42]

Nid oes dadl ynglŷn â'r ffaith bod B wedi dioddef anawsterau yn yr ysgol ac mae'n ymddangos bod YU1/YUSS2 a'r teulu wedi bod yn awyddus i fynd i'r afael â digwyddiadau o'r fath mewn modd cefnogol a chydweithredol. Wrth edrych yn ôl ar y digwyddiadau hyn, mae'n bosibl nad yw Mr J a'i deulu'n credu mai dyma'r achos nawr. Maen nhw wedi datgan eu bod yn credu bod YU2 wedi "gadael B lawr" a bod B yn "anhapus iawn yn yr ysgol", oherwydd ei brofiadau o gael ei fwlio. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod yr ysgol wedi delio â phob digwyddiad yn unol â'r gweithdrefnau a oedd ar gael iddynt bryd hynny. Mae'r ysgol, fodd bynnag, wedi cydnabod, ar adeg marwolaeth B, bod eu polisïau yn ymwneud â Bwlio a Diogelu Disgyblion ar fin cael eu hadolygu a'u diweddaru. Mae'n braf nodi ers hynny, (2019), bod canllawiau Llywodraeth Cymru a pholisïau YU2 mewn perthynas â bwlio a diogelu wedi'u cryfhau ac mae'r ysgol wedi datblygu a gwreiddio ymhellach ei chynnig gofal bugeiliol.

Ac eithrio'r adroddiad am farwolaeth B, dim ond un digwyddiad yn ymwneud â B oedd wedi'i gofnodi gan yr heddlu ar eu systemau, a oedd o bosibl yn ymosodiad gwaethygedig ar sail hil lle B oedd y troseddwr, a disgybl arall yn yr ysgol oedd y dioddefwr; honnwyd bod y digwyddiad wedi digwydd ar y bws ysgol.

Roedd yr ymchwiliad y tu allan i'r 'Protocol Bit Ysgolion'[43] ac fe'i ymchwiliwyd gan swyddogion tiriogaethol, yn hytrach na thrwy 'Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan', a gyflwynwyd yn 2005, gyda'r nod o osgoi troseddoli pobl ifanc lle bynnag y bo modd.Er bod Swyddog Cyswllt Ysgolion yr heddlu yn rhan o'r ymchwiliad ac wedi cysylltu â'r ysgol mewn perthynas â'r digwyddiad, roedd Swyddog Cymorth Troseddau Casineb wedi'i neilltuo i gefnogi'r dioddefwr a'i deulu. Roedd cyswllt â'r ysgol yn golygu bod yr ysgol yn cael gwybod am y digwyddiad ac yn gallu mynd i'r afael yn briodol yn amgylchedd yr ysgol. Cysylltwyd â B a'i deulu i ganfod a oedd unrhyw safbwyntiau/syniadaeth eithafol, a gafodd eu negyddu gan swyddogion.

---

[39] https://www.llyw.cymru/canllawiau-newydd-i-herio-bwlio-yn-ysgolion-cymru
[40] Gweler mwy am ddulliau ysgol gyfan yma
[41] https://www.communitycare.co.uk/2007/06/15/mencap-finds-80-of-children-with-learning-disabilities-are-bullied/
[42] https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-05/respecting-others-bullying-around-special-educational-needs-and-disabilities.pdf
[43] https://schoolbeat.cymru/fileadmin/public/schoolcrimebeat/eng/School_Crime_Beat_2016.pdf

Cynhaliwyd adolygiad cyfrannol a chanfuwyd nad oedd y digwyddiad o dan yr amgylchiadau yn cyfiawnhau troseddoli plentyn (sef B) ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach. Fodd bynnag, roedd yna ddysgu, a ddeilliodd o rywfaint o ddryswch ynghylch pa gangen o'r heddlu ddylai ymdrin â'r mater, a arweiniodd at oedi yn y broses o ddatrys.

Mae'r heddlu bellach wedi cyflwyno Hyb Bregusrwydd (VH) newydd, a fydd yn goruchwylio prosesau diogelu ac yn datgelu atgyfeiriadau i asiantaethau partner a'u derbyn oddi wrthynt. Mae llwybrau ar gyfer cyfeirio at ddigwyddiadau a bregusrwydd lefel is wedi gwella, yn ogystal â chysylltiadau â thimau plismona yn y gymdogaeth yn yr ardal blismona sy'n gysylltiedig â'r Adolygiad Ymarfer Plant Cryno.

Mae tystiolaeth o ymatebion priodol gan YU2 mewn perthynas ag ymdrin ag anawsterau B yn unol â'r canllawiau[44] a oedd ar gael ar y pryd[45]. Fel y gwelir o'r wybodaeth uchod, mae canllawiau a gwybodaeth newydd ar gael nawr nad oedd ar gael pan oedd B yn mynychu YU2. Bydd hyn yn galluogi pob ysgol i fod yn fwy ymwybodol ac abl i ymateb yn unol â hynny i anghenion disgyblion sy'n ymwneud â bwlio, yn enwedig y rheini sydd yn fwy agored i niwed megis B. Mae'r ysgol eisoes wedi cydnabod a chofleidio'r canllawiau newydd hyn ac wedi datblygu eu cynnig lles ymhellach i ddisgyblion sy'n mynychu YU2 nawr. Maent hefyd yn adolygu eu polisïau yr oedd angen rhoi sylw iddynt a'u diweddaru ym mis Medi 2018 ar adeg marwolaeth B.

Yn y digwyddiad dysgu ar gyfer yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno, mynegwyd ymdeimlad aruthrol o golled / galar gan staff YU2. Mynegasant edifeirwch dwfn nad oeddent wedi gallu atal ei farwolaeth. Roedd yn ymddangos bod gan y staff bugeiliol o dan tîm llesiant ailstrwythuredig yr ysgol, berthynas agos â B ac roeddent yn gallu dangos lefel o fewnwelediad ac empathi a oedd yn deimladwy ac yn ddwys.

**Arferion da a nodwyd**

- Er ei bod yn ymddangos y bu rhywfaint o oedi a chymhlethdod wrth ymdrin â'r digwyddiad bws ysgol pan ymosodwyd ar blentyn gan B, mae'n gadarnhaol bod adolygiad cymesur o'r digwyddiad wedi'i gynnal yn y pen draw. Roedd hwn yn nodi nad oedd y digwyddiad o dan yr amgylchiadau yn cyfiawnhau troseddoli plentyn (sef, B).
- Darparodd yr ysgol lawer o wahanol gyfleoedd pwrpasol i B gael cefnogaeth a chymorth o ystod o ffynonellau o fewn yr ysgol ac ar adeg ei farwolaeth roedd tystiolaeth o berthynas gref â'r staff bugeiliol a oedd yn gefnogol iawn i B.

**Safbwynt y teulu**

- Dywed y teulu eu bod yn credu bod YU2 yn "gadael B lawr" a bod B yn anhapus iawn yn yr ysgol oherwydd ei brofiadau o gael ei fwlio, teimlai ei fod yn cael ei dderbyn ym mhobman, ac ni allai ddeall pam ei fod yn teimlo na chai ei dderbyn yn yr ysgol, ac yr oedd am gael ei dderbyn.
- Mae'r teulu'n credu bod y berthynas ag YU2 yn dilyn marwolaeth B wedi chwalu'n anadferadwy a bod hyn yn rhannol oherwydd diffyg parodrwydd yr ysgol i "estyn allan" ac ateb eu cwestiynau niferus am yr hyn a ddigwyddodd ar y diwrnod y bu farw B.

---

[44] Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio (Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif: 23/2003).
[45] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/respecting-others-anti-bullying-overview.pdf

- Mae'r teulu'n credu na chafodd ymchwiliadau a gynhaliwyd i ddigwyddiadau yr adroddwyd amdanynt yn ymwneud â B eu bwydo'n ôl yn foddhaol iddynt. Gwnaethant nodi digwyddiad penodol lle ysgrifennodd B ar wal y toiled, pan ddywedwyd wrtho ar lafar, na fyddai'r mater yn cael ei ddwyn ymhellach.
- Roedd y teulu'n deall nad oedd Polisïau Diogelu a Bwlio YU2 yn gyfredol.

**Dysgu**

- Mae angen adolygu a diweddaru polisïau YU2 yn rheolaidd i fodloni canllawiau a deddfwriaeth genedlaethol / lleol. Dylent gynnwys lleisiau disgyblion yn y broses adolygu**.** Pan gânt eu cyhoeddi, dylai eu hygyrchedd gael ei hysbysu yn eang iawn i rieni a disgyblion. Nodir bod yr ysgol ar fin cael archwiliad diogelu gan yr awdurdod lleol (bu'r un blaenorol yn 2017). Bydd hyn yn cynnwys gwirio bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n gyfredol.
- Mae angen i bob asiantaeth fod yn ddiwyd wrth graffu ar eu cofnodion i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chynnwys yn yr amserlenni a gyflwynir ganddynt.
- Mae'r heddlu bellach wedi cyflwyno Hyb Bregusrwydd newydd, a fydd yn goruchwylio prosesau diogelu ac yn datgelu atgyfeiriadau i asiantaethau partner a'u derbyn oddi wrthynt. Mae llwybrau ar gyfer cyfeirio at ddigwyddiadau a bregusrwydd lefel is wedi gwella, yn ogystal â chysylltiadau â thimau plismona yn y gymdogaeth yn yr ardal blismona sy'n gysylltiedig â'r Adolygiad Ymarfer Plant Cryno.
- Mae swyddogion heddlu'n cael eu briffio i gyfeirio pobl at asiantaethau cymorth priodol lle nodir bregusrwydd. Mae hefyd yn ofynnol iddynt gofnodi unrhyw bryderon am blentyn ar (ffurflen adroddiad amlasiantaethol) y gellir ei rhannu â phartneriaid er mwyn ystyried camau gweithredu pellach. Mae hyn yn cydymffurfio â'u dyletswydd i adrodd o dan y ddeddfwriaeth ofynnol.
- Efallai y bydd YU2 am ystyried sut y gall fabwysiadu dull adferol o ymdrin â disgyblion a theuluoedd pan fo digwyddiad tyngedfennol a gwrthdaro cysylltiedig ar ôl trawma. Mae'n bosibl y bydd yr opsiwn i Mr J a'i deulu gyfarfod â'r ysgol i ddilyn dull o'r fath yn bosibl o hyd a gallai helpu i wella'r perthnasoedd dan straen presennol.
- Dylai YU2 fabwysiadu, fel arfer da, broses adrodd yn ôl fwy ffurfiol ynghylch canlyniad pryderon bwlio a godir ac yr ymchwilir iddynt.
- Ni chafodd y cam-drin gan gyfoedion honedig ei ymchwilio gan YU2 yn ôl Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008. Felly, mae angen i YU2 sicrhau bod yr holl staff yn gyfarwydd â Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 270/2021 a Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) a'u bod yn gallu cymhwyso'r gweithdrefnau hyn yn gyson.

**Lleisiau a dylanwad plant a phobl ifanc**

Mae gan blant sy'n gallu ffurfio barn yr hawl i gael gwybodaeth ac i gael mynediad at wybodaeth, i fynegi barn, ac i'r farn honno gael ei hystyried mewn unrhyw faterion sy'n effeithio arnynt. Dylid rhoi pwysau

dyladwy i farn y plentyn yn ôl oed, aeddfedrwydd a gallu'r plentyn (gweler erthyglau 12 a 13, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn)[46].

"Mae gan bob plentyn yr hawl i ddweud eu barn ar bob mater sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael eu cymryd o ddifrif".[47] Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: canllawiau 'Rhannu Pwrpas:rhannu dyfodol', yn cyfeirio'n benodol at y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, ac mae todiad B o'r canllawiau ar gyfer byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn nodi'r gofyniad eu bod yn mabwysiadu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol wrth weithio gyda phartneriaid i alluogi plant a phobl ifanc i gael llais[48]. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i alluogi cyfranogiad plant a phobl ifanc ers i Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) gael ei basio yn 2010 ac mae canllawiau statudol wedi bod ar waith ers 2012. Mae gwrando ar 'Lais y Dysgwr' mewn ysgolion yng Nghymru wedi canolbwyntio'n effeithiol iawn ers blynyddoedd lawer ar yr agenda hollbwysig o sicrhau llais clir a strategol i blant a phobl ifanc.

Mae gan blant a phobl ifanc ag anghenion addysgu arbennig yr wybodaeth unigryw am eu hanghenion a'u hamgylchiadau eu hunain, a'u barn eu hunain ynghylch pa fath o gymorth yr hoffent ei gael, i allu gwneud y gorau o'u haddysg. Lle bo modd, dylent gymryd rhan yn yr holl brosesau gwneud penderfyniadau sy'n digwydd ym myd addysg, gan gynnwys gosod targedau dysgu a chyfrannu at Gynlluniau Datblygu Unigol (CDU), trafodaethau am ddewis ysgolion, cyfrannu at asesu eu hanghenion ac at yr adolygiad blynyddol a phrosesau pontio. Dylent deimlo'n hyderus y gwrandewir arnynt a bod eu barn yn cael ei werthfawrogi, a bod arfer yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn unol â'r 'Signs of Safety' a fabwysiadwyd gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru CYSUR/CWMPAS[49].

Mae'r wybodaeth a rannwyd gan Mr J a'r teulu yn awgrymu eu bod yn credu nad oedd llais B wedi'i glywed yn ddigonol yn yr ysgol ac y gallai'r ysgol fod wedi gwneud llawer mwy i hwyluso hyn i B ac i ddisgyblion eraill sy'n agored i niwed. Er ei bod yn wir bod mwy y gallai YU2 ei wneud i gyfoethogi a datblygu llais a dylanwad eu disgyblion mwyaf agored i niwed, mae hefyd yn wir bod B wedi treulio amser gyda nifer o oedolion yn yr ysgol ac mae'n ymddangos yr oedd ganddo berthynas ddiogel ac ymddiriedus â nhw lle y gallai fynegi ei hun. Ni ddarparodd yr ysgol dystiolaeth o gyfraniad B i'w Gynllun Datblygu Unigol a'i adolygiad blynyddol. Efallai y bydd YU2 am ystyried sut y gall sicrhau bod lleisiau ei disgyblion mwyaf agored i niwed yn cael eu cynrychioli'n well. Gallai ystyried dod yn ysgol "sy'n ystyriol o blant"[50] lle mae cyfranogiad disgyblion yn cael proffil uwch.

Darparodd y digwyddiad dysgu fan diogel a gwarchodedig lle gallai staff a oedd wedi gweithio'n fwyaf agos gyda B a'i deulu fyfyrio ar eu perthynas ag ef a'r teulu. Roedd y staff hynny a oedd yn adnabod B orau yn gallu disgrifio eu perthynas ag ef, a rhannu eu teimladau enbyd o golled a galar. Mynegwyd cydymdeimlad diffuant â'r teulu. Roeddent yn siarad am B gyda gwir gynhesrwydd, trugaredd, gofal a dealltwriaeth. Rhoddodd rhai aelodau o staff enghreifftiau o dreulio amser unigol gyda B a chlywed ganddo'n uniongyrchol ei farn a'i safbwyntiau ar yr hyn oedd yn mynd yn dda yn ei fywyd, a buont yn trafod strategaethau gydag ef ar gyfer ymdopi pan nad oedd pethau wedi mynd yn dda. Rhoesant enghreifftiau o sut yr oedd synnwyr digrifwch B yn disgleirio a sut yr oedd yn gallu cynnal sgyrsiau aeddfed a diddorol

---

[46] https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/
[47] UNICEF DU, 1990 fel y cyfeirir ato yn ESTYN: Cyfranogiad disgyblion: canllaw arfer orau (Rhagfyr 2016)
[48] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-02/Bilingual-Participation-Standards-poster2016.pdf
[49] https://www.signsofsafety.net/
[50] Child Friendly Schools - y nod yw datblygu amgylchedd dysgu lle mae plant yn cael eu hysgogi ac yn gallu dysgu. Mae aelodau'r staff yn gyfeillgar a chroesawgar i blant ac yn rhoi sylw i'w holl anghenion iechyd a diogelwch. Mae hyfforddiant athrawon yn rhan ganolog o annog amgylchedd ysgol sy'n gyfeillgar ac yn gynhwysol.



TERFYNOL

iawn. Roedd ymdeimlad cryf bod B yn rheoli perthnasoedd oedolion yn llawer haws nag yr oedd â'i gyfoedion.

Mae sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn hanfodol bwysig i bob plentyn, ond yn enwedig i'r rhai sy'n agored i niwed. Er y gallai fod yn faes dadleuol i Mr J a theulu B ei fod yn anhapus yn yr ysgol cyn ei farwolaeth, mae llawer o dystiolaeth bod ganddo nifer o bobl yno yr oedd yn mwynhau perthynas gadarnhaol â nhw a bod cyfleoedd i'w lais gael ei glywed ac iddo gael ei gefnogi ar adegau anodd. Fodd bynnag, mae YU2 wedi cydnabod bod hwn yn faes y byddant yn parhau i'w adolygu a'i ddatblygu.

Fel y disgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad, roedd y panel adolygu yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r angen i gynnwys profiadau a lleisiau pobl ifanc. Yn benodol, gan y disgyblion hynny a oedd yn yr un flwyddyn â B ar adeg ei farwolaeth yn YU2. Er mai dim ond nifer fach o ddisgyblion a ddewisodd gymryd rhan, croesawyd eu cyfraniadau yn fawr a nodir eu sylwadau cysylltiedig sy'n berthnasol i'r Adolygiad Ymarfer Plant Cryno isod:

Gwnaeth un o'r bobl ifanc a ymunodd â'r digwyddiad ymgynghori ac a oedd yn adnabod B sôn am yr anawsterau a wynebodd B oherwydd bwlio. Dywedodd y byddai "*B yn eistedd yn y blaen yn y bws"* ac roedd hi a'i ffrindiau yn ymwybodol bod *"B ychydig yn wahanol*".

Dywedodd unigolyn ifanc arall a oedd yn adnabod B ei bod wedi eistedd wrth ei ymyl yn y dosbarth cofrestru. Ni allai ddweud ei bod yn ei adnabod yn dda. Cawsant "*sgyrsiau bach*" ond ni ddaethant yn ffrindiau mawr. Gwnaeth hi weithio allan pwy oedd B "*fel unigolyn*" a'i ddisgrifio fel "*bachgen neis*". Dywedodd fod ganddo bob amser straeon, am sut roedd ei foeler wedi torri neu straeon eraill am bethau oedd wedi digwydd. Dywedodd fod B "*yn falch iawn o'r hyn yr oedd yn ei wneud*". Roedd yn ei gofio'n siarad â'i athrawes ac "*roedd yn falch iawn o'i grefft*". Yn ei grŵp cyfeillgarwch "*byddem yn dweud wrth y bechgyn am roi'r gorau i fwlio - dosbarth bach ydoedd. Nid oedd B yn un i gymdeithasu â ni, byddai ganddo ffrindiau ei hun. Roedd yn berthynas o gariad / casineb rhwng B a'r bechgyn - gan weithiau byddai'n cyd-dynnu â nhw. Roedd yn unigolyn gwirioneddol neis i siarad ag ef.*" Dywedodd y byddai B yn eistedd wrth ei hymyl ar fwrdd lle nad oedd ond y ddau ohonynt.

Dywedodd disgyblion eraill, oherwydd ei bod yn ysgol fach, "*roedd athrawon yr ysgol yn adnabod yr holl ddisgyblion ac roedd y disgyblion yn adnabod yr holl athrawon.Gallech chi fynd at unrhyw un a dweud unrhyw beth wrthyn nhw*".

Daw'r dyfyniad canlynol o gyflwyniad ysgrifenedig gan un o grŵp blwyddyn B, mewn ymateb i wahoddiad y panel adolygu i gymryd rhan yn y digwyddiad adborth:

"*Roeddwn i bob amser yn meddwl bod fy ysgol yn gwneud ei gorau i gefnogi disgyblion ag anghenion ychwanegol, rwy'n meddwl bod ganddyn nhw ddosbarthiadau ychwanegol i'r disgyblion hynny lle roedd staff ar gael i'w helpu nhw gyda phethau.*

*Ar gyfer bwlio, roedd gennym wasanaethau ar waith lle roedden nhw'n siarad am fwlio, a sut nad yw'n cael ei oddef o gwbl, ac rwy'n meddwl bod y rhan fwyaf o bobl yn gwybod ble i fynd os/pryd yr oeddem yn profi bwlio, at y penaethiaid blwyddyn yn bennaf (rwy'n anghofio'r enw) ac ymdriniwyd ag unrhyw faterion cyn gynted â phosibl.*

*Roedd help os oedd problem yn unrhyw le, roedden nhw bob amser yn siarad am sut gallwch chi siarad ag unrhyw un o'r staff yn enwedig eich tiwtor, roedd yna hefyd gwnselydd yr ysgol (eto rwy'n anghofio yr union deitl), ble allech chi fynd i siarad 'pryd bynnag' a byddant yn eich helpu.*

TERFYNOL

*Er bod rhywfaint o help, rwy'n meddwl y dylai fod mwy o gwnselwyr yn yr ysgol i helpu mwy a mwy o fyfyrwyr oherwydd aeth fy ffrind at y cwnselydd a dywedodd bod y cwnselydd yn eithaf prysur".*

Ysgrifennodd rhiant at yr adolygydd annibynnol a chynnwys yr ymateb canlynol gan ei fab, gan gyfeirio at ymateb yr ysgol yn dilyn marwolaeth B:

*"=ar ôl y digwyddiad cawsom gynnig cymorth drwy'r ysgol, roedd yna bobl wedi'u hanfon o gwmpas y dosbarthiadau cofrestru yn gofyn i'r dosbarth a oedd unrhyw un ei angen, ond nid wyf yn meddwl bod unrhyw un wedi manteisio ar y cynnig fel hyn. Credaf y dylai'r ysgol fod wedi gofyn i'r bobl a oedd yn agos at B mewn modd mwy uniongyrchol, byddai'n anodd codi llais yn y dosbarth cofrestru yn gofyn i'r unigolyn hwnnw am help, neu o leiaf, teimlaf y byddai'n anodd iawn i rywun ofyn am help o flaen y dosbarth. Rwyf hefyd am ychwanegu bod yr ysgol wedi delio â'r protestiadau yn gymharol dda, o dan yr amgylchiadau anodd a roddodd y protestwyr ar yr ysgol, ei bod yn dal i weithredu'n dda o dan y pwysau hwnnw ac wedi gwneud ei gorau i atal y protestiadau rhag effeithio ar y myfyrwyr".*

**Arferion da a nodwyd**

- Mae tystiolaeth o gyfleoedd i ddisgyblion gyrchu a derbyn cymorth ac i gynnwys eu barn a'u dylanwad yn YU2. Nododd y disgyblion bwysigrwydd cwnselwyr ysgol, swyddog ieuenctid a staff lles, gan nodi bod wastad rhywun i fynd ato ac roedd staff YU2 yn adnabod yr holl ddisgyblion yn dda.
- Mae gan YU2 raglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) ddatblygedig sy'n cynnwys mewnbwn gan asiantaethau allanol megis iechyd a'r heddlu. Mae YU2 yn dilyn Cwricwlwm Cenedlaethol Llywodraeth Cymru a bydd yn mabwysiadu cwricwlwm diwygiedig Llywodraeth Cymru pan gaiff ei roi ar waith yn 2021. Nodwyd hefyd bod llesiant a gofal bugeiliol yn ganolbwynt i'r cwricwlwm Addysg Grefyddol.
- Mae'r datganiadau gan staff a disgyblion yn YU2 yn nodi bod gan B amser unigol gyda staff a geisiodd ei gefnogi, a bod trefniadau pwrpasol a hyblyg ar waith iddo geisio cymorth ychwanegol pan oedd ei angen.

**Safbwynt y teulu**

- Mae Mr J a'i deulu'n credu na chafodd llais a dylanwad B eu hystyried yn ddigonol gan YU2 i sicrhau yr ymatebwyd yn ddigonol i'w anghenion.
- Nid ydynt yn teimlo y gwrandawyd ar B a phan ysgrifennodd ar wal y toiled, maent yn nodi bod B wedi dweud 'o'r diwedd mae rhywun yn gwrando arnaf'.
- Nid oedd B bob amser yn gweld bod pob aelod o staff eisiau ei helpu neu weithredu ar ei bryderon.

**Dysgu**

- Ers marwolaeth B, nodir bod mwy o bwyslais wedi'i roi ar gymorth i ddisgyblion y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae hyn wedi'i ddatblygu trwy strwythur bugeiliol diwygiedig, hysbysfyrddau llesiant, arwyddion clir yn nodi ble mae disgyblion i fynd am gymorth, sesiynau siarad, cwricwlwm diwygiedig sy'n canolbwyntio ar lesiant a gofal bugeiliol.
- Mae YU2 hefyd yn rhan o'r ysgolion sy'n ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ac mae ganddi raglen o ddatblygiad staff i arfogi'r staff â sgiliau i reoli'r materion bugeiliol sy'n codi.

**Iechyd**

O fewn cyfnod llinell amser yr adolygiad hwn, mae sawl cofnod iechyd. Mae'r rhain yn ymwneud â rheoli ADHD B a phryderon ynghylch ymddygiad B gartref ac yn yr ysgol. Mae cofnodion iechyd hefyd yn dangos bod B wedi derbyn presgripsiynau rheolaidd ar gyfer Elvanse[51], cyffur a ddefnyddir yn gyffredin i gefnogi plant sydd ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD)[52]. Rhagnodwyd y meddyginiaeth ar gyfer hyn o fis Medi 2016, a'r cynllun oedd rhoi cynnig ar Elvanse bob dydd am bum diwrnod yr wythnos neu saith diwrnod yr wythnos. Byddai hyn yn cael ei dreialu am chwe wythnos. Yn dilyn y cyfnod prawf cychwynnol o chwe wythnos, gallai Mr J ofyn am bresgripsiwn, a fyddai'n cael ei adolygu o fewn chwe mis yn unol â'r canllawiau.

Ym mis Hydref 2016, cafodd yr ysgol wybodaeth oddi wrth y gwasanaeth amhariad ar y synhwyrau, yn eu hysbysu bod gan B golled clyw amledd uchel yn ei glust dde. Cafodd gymorth clyw ar gyfer ei glust dde. Rhannodd y Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig y canllaw hwn â'r holl staff.

Cyfarfu Pennaeth Dysgu B, Mrs J, a Mrs G â Mr J ar 3 Hydref 2016, i drafod hyn a nifer o faterion eraill; rhannwyd y rhain hefyd â'r holl staff. Rhannwyd pwysigrwydd safle eistedd B ym mlaen ac yng nghanol y dosbarth. Dywedodd Mr J fod meddygon o'r ysbyty wedi cynghori i beidio â gwisgo'r cymorth clyw yn yr ysgol gan ei fod 'yn rhy swnllyd ac mae'r signalau yn drysu'. Eglurodd Mr J hefyd fod gan B lygad tro, na chafodd lawdriniaeth amdano nes ei fod yn wyth oed ac y gallai hyn effeithio ar ei olwg ar adegau. Ychwanegodd hefyd fod B wedi bod mewn damwain car ddifrifol ym mis Hydref 2015 a'i fod yn dal i gael ffisiotherapi. Siaradodd Mr J am ADHD B, a dywedodd nad oedd B yn meddwl cyn siarad ac y gallai fod 'yn obsesiynol ac yn baranoaidd'.

Cyfarfu B â DR, athro rhanbarthol ar gyfer y byddar, ar sawl achlysur fel y nodir isod:

27 Medi 2016 – dywedwyd bod cymorth clyw wedi'i ddarparu, ond roedd B wedi dweud nad oedd yn ddefnyddiol

10 Ionawr 2017 – adroddwyd eto nad oedd B yn gwisgo ei declyn clyw ac y byddai'n ei wisgo pe byddai'r ysbyty'n ei gynghori i wneud yn ei ymweliad nesaf; a

18 Mai 2017 – eglurodd B ei fod yn teimlo bod y cymorth clyw yn rhy swnllyd. Roedd apwyntiad i'w drefnu gyda'r adran Awdioleg i drafod ei gymorth clyw.

TERFYNOL

[51] Elvanse – Meddyginiaeth a ddefnyddir fel rhan o raglen driniaeth ar gyfer anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd i unigolion 6 oed neu yn hŷn.
[52] ADHD - Mae anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd yn gyflwr sy'n cynnwys symptomau fel diffyg sylwgarwch, gorfywiogrwydd a byrbwylltra.Mae symptomau ADHD yn cynnwys cyfnod canolbwyntio byr, aflonyddu yn gyson a gweithredu heb feddwl.

Ym mis Chwefror 2017, mynychodd B Adran Achosion Brys Ysbyty G gyda gwaedlif o’r trwyn ac ymholiad ynglŷn â chyfergyd. Hysbyswyd ei fod wedi cael ei ddyrnu gan fachgen yn yr ysgol. Yr oedd clwyf bychan i'w drwyn.

Ym mis Mawrth 2017, methodd B â mynychu dau apwyntiad yn yr adran Awdioleg ac felly cafodd ei ryddhau.Mae’r bwrdd iechyd wedi datblygu a gweithredu gweithdrefn ar gyfer monitro pobl sy’n agored i niwed “na ddygwyd” neu “na fynychodd” apwyntiadau ac ymweliadau lle “na chafwyd mynediad”.

Ym mis Awst 2017 gwelwyd B gan y pediatregydd cymunedol ar gyfer ei adolygiad, a dywedodd Mr J fod B yn dal i gael trafferth gydag ymddygiad, yn bennaf yn ystod amser egwyl ysgol ac yn y cartref pan oedd effaith ei feddyginiaeth yn lleihau. Dywedodd Mr J fod B weithiau'n cael trafferth rheoli ei ddicter.

Mae llythyr gan Seicolegydd Therapi Gwybyddol Ymddygiadol preifat y teulu, dyddiedig 31 Hydref 2017 i’r ysgol yn nodi fel a ganlyn:

'*Yn anffodus, nid yw B yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Sp-CAMHs (Gofal Arbennig Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed) ond rwyf wedi cynghori ei dad i gysylltu â'i feddyg teulu i drafod atgyfeiriad posibl i Sp-CAMHs, os yw hyn ar gael yn ei ardal. Buom yn trafod y posibilrwydd o ymgysylltu â’r cwnselydd ysgol, ond ar hyn o bryd mae B yn betrusgar, gan nad yw’nteimlo bod hyn wedi bod o fudd iddo yn y gorffennol. Mae’n bosibl y bydd cymorth gan yr ysgol ynghylch lle diogel i drafod pethau un i un ag athro penodol a enwir yn ddefnyddiol, gan y bydd hyn yn helpu B i deimlo bod rhywun yn gwrando arno ac yn ei ddeall.’*

Nid oes unrhyw gyfeiriadau o fewn y llinell amser iechyd i nodi bod atgyfeiriad i Sp-CAMHS (Gofal Arbennig Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed) drwy feddyg teulu B wedi symud ymlaen erioed yn unol â’r awgrym uchod.

**Triniaeth â chyffuriau i ddysgwyr oedran ysgol**

Mae NICE[53] yn nodi mai’r driniaeth gyntaf y dylid ei chynnig i ddysgwyr oedran ysgol sydd ag ADHD difrifol yw triniaeth â chyffuriau, ynghyd â rhaglen hyfforddi/addysg rhieni mewn grŵp.Mae’r canllawiau’n mynd ymlaen i ddweud y dylai’r driniaeth â chyffuriau (ee methylffenidad neu atomocsetin) ar gyfer dysgwyr ag ADHD bob amser fod yn rhan o gynllun triniaeth gynhwysfawr sy’n cynnwys cyngor ac ymyriadau seicolegol, ymddygiadol ac addysgol.

Mae canllawiau NICE mewn perthynas ag ADHD (NG87)[54] yn argymell adolygiad bob chwe mis i wirio ac i gofnodi taldra a phwysau. Yn unol â'r canllawiau, dylai ymarferydd meddygol gynnal adolygiad bob 12 mis. Yn draddodiadol, mae clinigau ADHD yn y bwrdd iechyd wedi ceisio cynnig apwyntiadau gyda phediatregydd bob chwe mis.

Yn 2019, gan gydnabod diffyg capasiti i ateb y galw cynyddol, cychwynnodd y bwrdd iechyd glinigau monitro a reolir gan weithwyr cymorth gofal iechyd i gofnodi twf (taldra a phwysau), pwysedd gwaed a chyfradd curiad y galon yn ogystal â chofnodi presenoldeb neu absenoldeb sgîl-effeithiau andwyol trwy holiadur safonol. Mae unrhyw gwestiynau neu bryderon rhieni yn cael eu trosglwyddo i'r pediatregydd. Gyda'r adnodd hwn byddai’r rhieni a'u plentyn yn gweld y gweithiwr cymorth gofal iechyd neu'r meddyg bob yn ail fis.

TERFYNOL

[53] https://www.nice.org.uk/guidance
[54] https://www.nice.org.uk/guidance/ng87 a https://www.nice.org.uk/guidance/ng87/resources/gwybodaeth-ir-cyhoedd-pdf-4901496589

Yn ei drafodaethau esboniodd Mr J na roddodd ei feddyginiaeth i B yn ystod gwyliau'r ysgol ac mae'n bosibl bod hyn wedi amharu ar gylchred ymateb B i'r feddyginiaeth, yn enwedig pan ailddechreuodd ei gymryd. Cyfrifoldeb Mr J fyddai rhoi'r feddyginiaeth a phe bai'n dewis peidio â'i rhoi i B yn ystod gwyliau'r ysgol, ni fyddai hyn bob amser wedi bod yn rhywbeth y byddai staff yr ysgol neu staff iechyd wedi bod yn ymwybodol ohono ar y pryd. Mae'n ymddangos bod archwilio gyda theuluoedd sut y maent yn rheoli meddyginiaeth ar bresgripsiwn yn hanfodol i ddeall unrhyw effaith bosibl ar blant pan fydd teuluoedd yn dewis newid y dos a argymhellir.

Mae'n ymddangos bod y mater o atgyfeirio B at Gofal Arbennig Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed wedi bod o bosibl yn gyfle a gollwyd. Awgrymodd y seicolegydd y gallai Mr J fynd ar drywydd hyn drwy ei feddyg teulu ond ni chafodd wnaed hyn gan Mr J nac unrhyw un arall. Mae'r adolygydd annibynnol wedi ystyried y ddogfen "Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru"[55] i weld a oedd unrhyw beth a allai fod wedi cynorthwyo Mr J neu'r teulu i gael cymorth iechyd a llesiant emosiynol i B. Mae Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn strategaeth draws-lywodraethol sy'n nodi'r nodau ar gyfer gwella iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru.Dyma'r strategaeth iechyd meddwl gyntaf sy'n cwmpasu pob oedran; plant a phobl ifanc, oedolion oedran gweithio a phobl hŷn.

Ar gyfer plant a phobl ifanc, mae'r strategaeth yn nodi'r canlynol:

*"Byddwn yn gweithio gydag ysgolion drwy'r rhwydwaith Ysgolion Iach, gyda chlybiau ieuenctid, colegau a Thimau Troseddau Ieuenctid, ac yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mewn Addysg heblaw yn yr Ysgol, i godi ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl. Byddwn yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc i wneud yn siŵr bod gwasanaethau'n diwallu eu hanghenion, eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau pan fo'n bosibl, a'u bod yn cael yr wybodaeth yn y fformat cywir yn y lleoedd y maent yn mynd iddynt."*

Mae sylwi ar arwyddion problem iechyd meddwl a darparu cymorth cyn gynted â phosibl yn bwysig. Mae haen 1 Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHs) yn gweithio gydag eraill megis gwasanaethau Nyrsio Ysgol a Thimau Cwnsela mewn Ysgolion a'r Timau Troseddwyr Ifanc, i ddiwallu'r anghenion hyn a gwella mynediad priodol at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.. Ni aethpwyd ar drywydd atgyfeiriad gan ei feddyg teulu, fel yr argymhellwyd gan y seicolegydd preifat, ar gyfer B. Mae'n anodd gwybod a fyddai hyn wedi rhoi mwy o fewnwelediad i'w feddwl ac wedi gallu nodi unrhyw syniadau am hunanladdiad posibl. Fodd bynnag, yr hyn a oedd yn hysbys oedd bod B yn cael cymorth bugeiliol gan amrywiaeth o bobl o fewn rhwydwaith yr ysgol.

Ym mis Mehefin 2018, methodd B â chael ei bigiadau imiwneiddio safonol yn yr ysgol oherwydd nad oedd y ffurflenni caniatâd wedi'u llenwi.Cysylltodd nyrs yr ysgol â Mr J i'w hysbysu y gallai B gael ei bigiadau imiwneiddio yn y feddygfa bellach. Roedd y linell amser iechyd yn dangos nad oedd yr imiwneiddio wedi digwydd.Roedd apwyntiad iechyd diwethaf B ym mis Awst 2018, i gael cymorth gyda'i acne a'r eryr.

Rhoddodd nyrs ysgol y bwrdd iechyd sylw i B ar ddiwrnod ei farwolaeth, gan gynorthwyo'r staff ysgol gyda'u hymdrechion i roi adfywio cardio-pwlmonaidd i B. Roedd hyfforddiant a gwybodaeth am sut i weithredu adfywio cardio-pwlmonaidd y staff ysgol ac iechyd yn gyfredol, sy'n cael ei nodi fel arfer da.

TERFYNOL

[55] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/adolygu-cynllun-cyflawni-law-yn-llaw-at-iechyd-meddwl-20192022-er-mwyn-ymateb-i-covid-19.pdf

**Arferion da a nodwyd**

- Ceisiodd nyrs bwrdd iechyd YU2 ganiatâd gan dad B i rannu gwybodaeth â'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol i hybu'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer B yn amgylchedd yr ysgol.
- Cysylltodd nyrs ysgol y bwrdd iechyd yn uniongyrchol â'r tad i gynnig lle arall iddo gael y pigiadau imiwneiddio a oedd wedi'u methu, oherwydd bod y ffurflen ganiatâd wedi'i dychwelyd yn hwyr.
- Ar ddiwrnod marwolaeth B, cynigiodd nyrs ysgol y bwrdd iechyd gymorth proffesiynol, a gweithredodd o fewn ei chwmpas ymarfer.
- Roedd nyrs ysgol y bwrdd iechyd a staff ysgol yn YU2 wedi derbyn hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd cyfredol.

**Safbwynt y teulu**

- Roedd y teulu'n pryderu na chafodd B gefnogaeth a chymorth arbenigol gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHs). Maen nhw'n credu y dylai gwasanaethau o'r fath fod yn hawdd eu cyrchu ac yn hygyrch i blant sy'n agored i niwed.

**Dysgu**

- Mae gweithdrefn bwrdd iechyd mewn perthynas â threfniadau trosglwyddo plant wrth symud i ymarferydd arall o fewn y gwasanaeth nyrsio ysgol wedi'u datblygu a'u rhoi ar waith.
- Roedd y bwrdd iechyd wedi datblygu a gweithredu 'gweithdrefn monitro pobl sy'n agored i niwed na ddygwyd neu na fynychodd apwyntiadau, ac ymweliadau lle na chafwyd mynediad' ar waith i bob oed. Mae wedi'i nodi fel maes blaenoriaeth i'w adolygu er mwyn monitro cydymffurfedd.
- Mae angen archwilio cymorth iechyd a llesiant emosiynol i blant ag ADHD a nodweddion eraill sy'n golygu eu bod yn agored i niwed fel profiadau niweidiol yn ystod plentyndod neu fwlio fel rhan o ddull cyfannol o gynnig Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, yn unol â'r canllawiau yn y 'Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl'.
- Mae angen archwilio effaith teuluoedd yn addasu meddyginiaeth ar bresgripsiwn eu hunain ar gyfer eu plant fel rhan o'r broses adolygu ac mae angen annog rhieni i rannu unrhyw newidiadau i arferion cymryd y feddyginiaeth â gweithwyr proffesiynol.
- Yn 2019, gan gydnabod diffyg capasiti i ateb y galw cynyddol, cychwynnodd y bwrdd iechyd glinigau monitro a reolir gan weithwyr cymorth gofal iechyd i gofnodi twf (taldra a phwysau), pwysedd gwaed a chyfradd curiad y galon yn ogystal â chofnodi presenoldeb neu absenoldeb sgil-effeithiau andwyol trwy holiadur safonol. Mae unrhyw gwestiynau neu bryderon rhieni yn cael eu trosglwyddo i'r pediatregydd. Gyda'r adnodd hwn byddai'r rhieni a'u plentyn yn gweld y gweithiwr cymorth gofal iechyd neu'r meddyg bob yn ail fis.

- Dylai cynlluniau gofal iechyd ysgolion yr adran addysg[56] gael eu hadolygu o leiaf bob blwyddyn, a dylai gynnwys staff priodol yr ysgol a rhieni ar bob pwynt trosglwyddo.

**Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod**

Nodir yn yr adroddiad hwn fod B wedi profi anawsterau yn ei flynyddoedd cynnar. Yn aml, mae gweithwyr proffesiynol yn cyfeirio at brofiadau o'r fath fel 'Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod'. Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod fel y'u diffinnir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn brofiadau llawn straen sy'n digwydd yn ystod plentyndod, sy'n achosi poen yn uniongyrchol i blentyn (ee, cam-driniaeth) neu yn effeithio arno trwy'r amgylchedd y mae'n byw ynddo (ee, tyfu i fyny ar aelwyd â thrais domestig). Gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod effeithio ar iechyd plentyn drwy gydol ei fywyd. Mae Sefydliad Iechyd y Byd hefyd yn cynnwys bwlio a phrofedigaeth fel profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Yn 2019 cyhoeddwyd adroddiad o'r enw "*Ymateb i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, adolygiad o dystiolaeth o ymyriadau i atal niwed ar draws cwrs bywyd a mynd i'r afael ag ef*"[57] sy'n nodi rhywfaint o'r dysgu ynghylch mathau o brofiadau niweidiol sy'n cael effaith yn ystod plentyndod a sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain.

Mae codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod wedi bod ar gael yn eang i ymarferwyr ar draws yr ystod o broffesiynau sy'n rhan o Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR). Nid yw'n glir o'r wybodaeth a rannwyd ar gyfer yr adroddiad hwn a gafodd goblygiadau llawn profiadau niweidiol yn ystod plentyndod cynnar B eu hystyried yn fanwl gan unrhyw weithwyr proffesiynol yn gweithio gydag ef, ac eithrio'r seicolegwyr gan bod y ddau ohonynt yn cyfeirio ato yn eu hadroddiadau. Yn seiliedig ar yr hyn y mae gweithwyr proffesiynol yn ei wybod am brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn parhau i effeithio ar blant hyd eu glasoed a wedyn fel oedolion, mae'n bosibl bod ei brofiadau cynnar yn dal i effeithio ar B. Mae angen parhau i roi mwy o bwyslais ar effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar draws yr holl asiantaethau. Mae angen sicrhau bod teuluoedd yn cael dealltwriaeth o effaith bosibl profiadau niweidiol yn ystod plentyndod i'w galluogi i ddarparu'r cymorth angenrheidiol i'w plant lle gallai profiadau niweidiol cynnar o'r fath effeithio arnynt.

TERFYNOL

**Arferion da a nodwyd**

- Mae codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod wedi bod ar gael yn eang i ymarferwyr ar draws yr ystod o broffesiynau sy'n rhan o Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR).

**Safbwynt y teulu**

- Roedd tad B yn gallu mynegi ei ddealltwriaeth ei hun o effaith bosibl ei brofiadau plentyndod cynnar anodd ar B, a theimlai fel teulu eu bod wedi gwneud llawer i oresgyn hyn gyda B trwy ddarparu llawer o brofiadau cadarnhaol a chefnogol iddo.
- Soniodd tad B am bwysigrwydd neiniau a theidiau B yn ei fywyd cynnar a'r sefydlogrwydd y gwnaethant ei gynnig iddo.

[56] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/cefnogi-dysgwyr-ag-anghenion-gofal-iechyd.pdf
[57] https://icccgsib.co.uk/wp-content/uploads/2020/08/Responding-to-ACEs-PHW2019-welsh.pdf/

- Siaradodd tad B â chynhesrwydd a diolchgarwch ynghylch y cymorth yr oedd gweithiwr cymdeithasol cynharach B wedi'i roi i B a'i deulu ar adeg ysgariad ei rieni a'r cymorth a ddarparwyd ganddynt ar adeg marwolaeth B ac yn ystod yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno.

**Dysgu**

- Mae angen i fwy o gydnabyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod barhau fel rhan o hyfforddiant parhaus i weithwyr proffesiynol a rhannu gwybodaeth am brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod â theuluoedd y mae'n berthnasol iddynt.
- Roedd YU2 yn falch o ddysgu mwy am 'Signs of Safety' trwy'r ddau ddigwyddiad dysgu (y blaenorol a'r gwirioneddol) a sut y gellid ymgorffori hynny yn eu hymarfer.
- Mae angen ymagwedd ysgol gyfan / coleg cyfan er mwyn i bob sefydliad addysgol fod yn ystyriol o drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.
- Mae angen i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant gydnabod y gall y rhai sydd wedi profi profiadau niweidiol yn ystod plentyndod neu drawma difrifol ddangos nodweddion ADHD; ar y llaw arall, mae'n bosibl bod y plant hynny yr ystyrir bod ganddynt ADHD mewn gwirionedd yn arddangos ymddygiad sy'n ganlyniad i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod neu drawma.

**Marwolaethau annisgwyl yn ystod plentyndod**

Mae'n debyg mai delio â marwolaeth annisgwyl plentyn yw un o'r profiadau mwyaf dirdynnol ac anodd y bydd yn rhaid i deulu neu weithwyr proffesiynol ymdopi ag ef erioed. Mae'n cyfuno effaith galar a cholled â'r cwestiynau treiddgar a'r awydd i ddeall, beth, os oedd unrhyw beth, a allai fod wedi'i wneud i atal y farwolaeth. Yn yr adolygiad hwn mae'n amlwg bod marwolaeth B wedi cael effaith sylweddol, dwys a pharhaol ar bawb a oedd yn ei adnabod.

Amlygodd y digwyddiad dysgu sy'n gysylltiedig â'r Adolygiad Ymarfer Plant Cryno hwn y dasg anodd iawn i'r teulu a gweithwyr proffesiynol sy'n parhau i fynd i'r afael â'u galar, a waethygwyd oherwydd yr oedi cyn cynnal cwest crwner a chwblhau'r adolygiad hwn. Mae'r cyfle i wneud synnwyr o'r hyn a ddigwyddodd i B ac i gyrraedd pwynt terfyn yn parhau i gael ei ohirio, hyd nes y daw'r ddwy broses i ben. Mae'r effaith ar bawb dan sylw yn sylweddol. Nid yw'r ymrannu a'r diffyg ymddiriedaeth y mae'r teulu wedi'u mynegi tuag at yr ysgol wedi cynorthwyo'r broses o ddod i gymod a therfyn ar gyfer y naill barti na'r llall. Mae'r panel adolygu yn gobeithio y bydd cyfle o hyd i broses adferol ddigwydd.

Mewn perthynas â'r digwyddiadau a ddigwyddodd ar 12 Medi 2018 ac ymateb YU2 i'r digwyddiadau a ddigwyddodd, mae y rhain wedi'u hystyried fel rhan o'r Adolygiad Ymarfer Plant Cryno hwn i ystyried unrhyw ddysgu sy'n berthnasol i'w polisïau a oedd ar waith ar y pryd. Mae argraffiad cofrestr yr ysgol yn dangos bod athrawes wyddoniaeth gwers 3 B, wedi anfon neges 'SPARK' at MH am 11.20am ar 12 Medi 2018, pan nododd fod B ar goll ar ôl cymryd cofrestr y sesiwn. Cyflwynwyd y gofrestr wedyn ar-lein am 11.23am ar 12 Medi 2018.  Awgrymodd Mr J mewn cyfarfod gyda'r adolygydd annibynnol a chadeirydd y panel fod B wedi gadael yr ystafell ddosbarth dechnoleg ar ddechrau amser egwyl y bore ar 12 Medi 2018 mewn cyflwr trallodus a "*ei fod hefyd wedi'i weld yn y coridor gan ddisgybl arall, gan ddweud ei fod wedi*

*cael digon, a bod yn rhaid iddo fynd allan o'r lle hwn."* Nid oedd yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno yn gallu gweld unrhyw dystiolaeth i gadarnhau'r sylw / honiad hwn ac felly mae'n parhau i fod heb ei brofi.[58]

Mae lluniau teledu cylch cyfyng dyddiedig 12 Medi 2018 (a welwyd gan yr adolygydd annibynnol), sy'n dangos bod B yn gadael yr ystafell ddosbarth dechnoleg am 10:52am, ac yn mynd yn syth i gyfeiriad toiledau'r bloc technoleg. Mae trawsgrifiad y cwest yn nodi wrth i B adael yr ystafell ddosbarth, "nid oedd yr un o'r tri aelod o staff yn teimlo bod B yn dal yn ôl am unrhyw reswm na bod neu y bu unrhyw fath o sbardun ar gyfer yr hyn a fyddai'n digwydd wedyn."[59] Ni welir B ar unrhyw gamera arall ar ôl gadael y wers dechnoleg am 10:52am, wrth iddo wneud ei ffordd i doiledau'r bloc technoleg.Nid yw p'un a oedd B wedi cynhyrfu ai peidio i'w weld ar y teledu cylch cyfyng, gan fod cefn B i'r camera. Dywedodd canfyddiadau'r cwest: "mae'n hynod o anodd cael delwedd glir o iaith ei gorff; ond, gallaf yn sicr ddweud, ei fod yn edrych fel rhywun a oedd yn llai bywiog nag yr oedd wedi bod pan gyrhaeddodd yr ysgol, ac nad oedd hyn yn gyson â'i ymddygiad yn y wers."[60]

Bydd y cyfuniad o'i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a'i anghenion addysgu arbennig oherwydd ei Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD), wedi creu rhywfaint o fregusrwydd ychwanegol i B. Mae'r adroddiadau seicolegol yn cyfeirio at hyn. Mae'n bosibl nad oedd goblygiadau llawn hyn wedi'u deall yn llawn gan y teulu a'r gweithwyr proffesiynol a oedd yn ceisio cefnogi B. Roedd hyn yn rhywbeth y bu gweithwyr proffesiynol yn myfyrio arno yn ystod y digwyddiad dysgu. Mae'n bosibl hefyd nad oedd B ei hun wedi gwerthfawrogi'n llawn nac wedi gallu deall cymhlethdod y teimladau a brofodd oherwydd y cymysgedd cymhleth hwn o ddylanwadau. Dywedodd Mr J fod B weithiau'n gweithredu 'yn fyrbwyll' a bob amser 'yn y foment'; efallai mai dyma oedd yr achos ar y diwrnod tyngedfennol hwnnw. Mae'n bosibl bod y camau a gymerodd B wedi bod yn adweithiol ac 'yn y foment', heb werthfawrogi'n llawn y canlyniad terfynol.

Yn y cyfnod cyn ei farwolaeth, nid oedd B wedi dangos unrhyw arwyddion i'w deulu na'r gweithwyr proffesiynol hynny a oedd yn ei adnabod yn dda, y gallai digwyddiad trasig o'r fath ddigwydd, naill ai'n bwrpasol neu'n ddamweiniol.Roedd ei deulu a'i weithwyr proffesiynol i gyd yn ymwybodol o'i fregusrwydd ond ni welsant unrhyw arwyddion o gwbl a allai awgrymu bod gan B unrhyw fwriad neu syniadau am hunanladdiad/ niwed.Roedd yr heriau a wynebodd B mewn perthynas â'i iechyd a'i lesiant emosiynol yn hysbys i'r rhai o'i gwmpas ac roedd strategaethau ar waith i geisio ei gefnogi. Yn ystod y cyfnod yn union cyn ei farwolaeth, mae teulu B a'r staff ysgol yn adrodd nad oedd B i'w weld yn anhapus nac yn dangos unrhyw arwyddion o drallod enbyd. Roedd y rhai a ymgysylltodd ag ef ar ddiwrnod ei farwolaeth yn edrych ymlaen at ddigwyddiadau a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol.

O'r wybodaeth sydd ar gael am farwolaethau sydyn annisgwyl ymhlith plant, mae'n anodd gwybod beth, os o gwbl, a allai fod wedi helpu'r rhai a oedd yn ymwneud â B i ragweld ei gamau gweithredu.Mae marwolaethau annisgwyl yn ystod plentyndod a hunanladdiad ymhlith plant wedi bod yn faes sy'n peri pryder a diddordeb ledled Cymru yn cynnwys gweithwyr proffesiynol ym meysydd iechyd, addysg a gofal cymdeithasol.Mae'n faes gwaith y mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, CYSUR, wedi comisiynu gwaith arno ac wedi bod yn ymwneud yn llawn ag ef. Mae'r gwaith yn parhau ar draws yr holl asiantaethau partner.

[58] Gweithdrefnau Diogelu Cymru – Yn syml, mae'n golygu nad oes digon o dystiolaeth adnabyddadwy i brofi neu wrthbrofi'r honiad. Nid yw'r term felly yn awgrymu bod unrhyw barti yn euog neu yn ddieuog.
[59] Canfyddiadau a chasgliadau – Cwest i'r Farwolaeth – Crwner Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin 29 Mehefin 2021
[60] Canfyddiadau a chasgliadau – Cwest i'r Farwolaeth – Crwner Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin 29 Mehefin 2021

Mae'r cwestiwn a oedd marwolaeth B yn ddamweiniol neu'n fwriadol yn parhau heb ei ateb.

Fodd bynnag, yn ei ganfyddiadau dywedodd y crwner; 'Y bloc toiledau oedd ei le diogel, y lle y byddai'n mynd pan fyddai'n ofidus, yn rhwystredig neu'n grac, ac rwy'n meddwl mai'r hyn a wnaeth oedd mynd yno mewn ymgais i dawelu a bod y cam a gymerodd i'w briodoli i'r gofid a'r rhwystredigaeth neu'r dicter.Yn fy marn i, boed oherwydd gofid, rhwystredigaeth neu ddicter; roedd hon yn amlwg yn weithred fwriadol ar ran B ond yn un a aeth o chwith.'[61]

Mae'n peri tasg heriol i'r rhai a oedd yn adnabod B ddeall y ffordd orau o ystyried pa ddysgu priodol perthnasol y gellir ei gymryd o'i farwolaeth. Gyda'r cwestiwn hwnnw heb ei ateb, mae'n werth edrych ar yr hyn sy'n hysbys eisoes am farwolaethau annisgwyl a hunanladdiad ymhlith plant.

Arweiniwyd 'Adolygiad thematig o farwolaethau plant a phobl ifanc drwy hunanladdiad tebygol' gan yr Athro Ann John a'i gefnogi gan Dîm Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant, Iechyd Cyhoeddus Cymru.[62] Cefnogwyd yr adolygiad hwn hefyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru.Mae'n pwysleisio'n gywir yr effaith enfawr y gall hunanladdiad plentyn ei chael. "*Pan fydd rhywun yn lladd ei hun mae'n drasiedi sy'n achosi trallod i lawer o bobl - teulu, ffrindiau, gweithwyr proffesiynol a'r gymuned ehangach. Mae'r effaith honno'n cael ei lluosi pan fydd plentyn neu unigolyn ifanc yn marw drwy hunanladdiad".*

Galwodd adroddiad *Cadernid Meddwl* y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru[63] ddod yn flaenoriaeth genedlaethol ddatganedig.

Roedd yr adolygiad thematig 'Siarad â fi 2 – Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed Cymru 2015-2020'[64] yn sail i strategaeth ymgynghori Llywodraeth Cymru ar atal hunanladdiad a hunan-niwed.Roedd plant a phobl ifanc o gefndiroedd sy'n agored i niwed, yn enwedig y rhai nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn grŵp blaenoriaeth ar gyfer gweithredu yng Nghymru, a chyfeiriwyd at y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant fel y mecanwaith yng Nghymru ar gyfer adolygu marwolaethau oherwydd hunanladdiad ymhlith pobl ifanc yn rheolaidd.

'Siarad â Fi 2' yw'r strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niwed ar gyfer Cymru am y cyfnod 2015-2020. Mae'n adeiladu ar y strategaeth wreiddiol 'Siarad â Fi ac yn nodi sawl amcan a chynllun gweithredu i'w cyflawni.

Mae'r cyfle a ddaw yn sgil 'Siarad â Fi 2' i helpu i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hunanladdiad ymhlith pobl ifanc i'w groesawu'n fawr, ond mae'n anodd gwybod a fyddai'r rhai a oedd yn adnabod B wedi bod mewn gwell sefyllfa hyd yn oed gyda'r wybodaeth, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ddefnyddiol hyn i ragweld neu i atal ei gamau gweithredu.

O ystyried gwybodaeth yr asiantaeth a chyfraniadau'r teulu, nid oes dim i awgrymu y gallai'r gweithwyr proffesiynol hynny a oedd yn gysylltiedig â B fod wedi rhagweld neu atal marwolaeth B. Er bod meysydd dysgu i'w cydnabod, nid oes unrhyw weithdrefn na pholisi y gellir eu nodi, fel rhai sydd wedi cyfrannu at unrhyw fethiannau penodol a gyfrannodd yn uniongyrchol at farwolaeth B.

[61] Canfyddiadau a chasgliadau – Cwest i'r Farwolaeth – Crwner Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin 29 Mehefin 2021
[62] https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/rhaglen-adolygu-marwolaethau-plant1/adroddiadau-cymraeg/adolygiad-thematig-marwolaethau-plant-trwy-hunanladdiad-tebygol-2013-2017-prif-adolygiad/
[63] https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11522/cr-ld11522-w.pdf
[64] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/siarad-a-fi-2-strategaeth-atal-hunanladdiad-a-hunan-niwed-cymru-2015-2020.pdf

Er bod y datblygiadau a nodir uchod yn arwyddocaol a hynod werthfawr, nid yw'n bosibl dysgu'n benodol o'r rhain i nodi bylchau ym mholisïau asiantaethau a allai fod wedi helpu i ragweld neu atal marwolaeth B.

**Arferion da a nodwyd**

- Mae pob asiantaeth yn dilyn y Broses PRUDiC (Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentyndod) (2018) mewn perthynas â phob marwolaeth annisgwyl plentyn dan 18 oed, sy'n darparu proses glir ar gyfer cymorth i deuluoedd ac atgyfeiriad at wasanaethau profedigaeth.
- Cymorth cyntaf – cafodd holl staff YU2 hyfforddiant ar gyfer diffibrilwyr ac mewn adfywio cardio-pwlmonaidd. Roedd hyn wedi digwydd bythefnos cyn marwolaeth B. Roedd hyn yn caniatáu cynnal adfywio cardio-pwlmonaidd a defnyddio'r diffibriliwr o fewn eiliadau i'r staff gyrraedd lleoliad y digwyddiad trasig.
- Er gwaethaf y lefel uchel o sioc a phryder yr oedd staff YU2 yn eu hwynebu, cafodd y digwyddiad ei reoli a'i gyfathrebu'n effeithiol i rieni ar y diwrnod. Ni chafodd unrhyw ddisgybl, ar wahân i chwaer B, eu hamlygu i'r digwyddiad ei hun, ac roedd yr ysgol yn gallu dechrau gweithredu eto cyn diwedd y dydd.

**Safbwynt y teulu**

- Mae'r teulu'n parhau i alaru ac yn gofyn cwestiynau am beth ddigwyddodd a pham. Mae'n ddealladwy eu bod yn parhau i gael trafferth dod i delerau â marwolaeth annisgwyl B a cholli aelod hoffus o'r teulu yr oeddent yn ei garu'n fawr iawn.
- Nid yw'r teulu'n credu eu bod wedi cael gwybod y gwir am symudiadau olaf B ar ddiwrnod ei farwolaeth.
- Mae'r teulu wedi cael trafferth delio â chanlyniadau D yn dod o hyd i'w brawd yn y ciwbicl toiled.
- Mae'r teulu'n ei chael hi'n annirnadwy o gyflwyniad B pan yr adawodd ef y bore hwnnw, sut y gallai'r digwyddiad trasig hwn fod wedi digwydd.

**Dysgu**

- Mae angen i'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud yn yr adroddiad 'Cadernid Meddwl' ac yng Nghymru ar atal hunan-niwed a hunanladdiad barhau i lywio arfer er mwyn cryfhau cymorth a chefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant emosiynol plant.
- Mae angen parhau i godi ymwybyddiaeth a hyfforddi'r holl staff mewn perthynas â hunanladdiad plant gan gyfeirio at 'Strategaeth Siarad â Fi 2' Cymru.
- Er bod hwn yn ddigwyddiad unigryw, mae angen ystyried sut y bu i chwaer B ddod o hyd i'w brawd ar ddiwrnod ei farwolaeth, a chyflwyno system sy'n cael ei reoli'n well i sicrhau nad yw disgyblion yn dod i gysylltiad â digwyddiadau niweidiol posibl yn ystod digwyddiad tyngedfennol.

- Mae angen i'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yn y maes hynod bwysig hwn drwy Brifysgol Abertawe barhau, a rhaid sicrhau bod ymwybyddiaeth a dysgu ohono wedi'i wreiddio mewn ymarfer proffesiynol.

**Gwella systemau ac ymarfer**

*Er mwyn hyrwyddo'r hyn a ddysgwyd o'r achos hwn, nododd yr adolygiad y camau gweithredu canlynol ar gyfer y bwrdd a'r asiantaethau sy'n aelodau ohono a'r canlyniadau a ragwelir ar gyfer gwelliant:*

Mae dysgu wedi'i nodi drwy gydol y broses adolygu. Mae'n bwysig nodi bod y pwyntiau isod yn cael eu nodi, o ystyried y fantais o edrych yn ôl. Dylai unrhyw ddysgu gyfrannu at wella ymarfer yn y dyfodol a sicrhau bod gwasanaethau'n gadarn o ran amddiffyn plant. Mae'r adran isod yn nodi'r themâu sy'n dod i'r amlwg o'r adolygiad a'r hyn y gellir ei ddysgu ganddynt.

**Dysgu 1**: Bydd Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cydgysylltu ac yn cefnogi ei aelodau i ddatblygu a chyflwyno model ymateb cyflym, i ddarparu lefel amserol a gwell o gymorth i deuluoedd, cymheiriaid a'r gymuned ehangach pan fydd marwolaethau annisgwyl yn digwydd.

**Dysgu 2**: Mae angen i aelodau'r panel sicrhau bod ymarferwyr sy'n gyfrifol am gwblhau llinellau amser asiantaethau yn ymwybodol o'r angen i gynnwys yr holl wybodaeth arwyddocaol sydd wedi'i chynnwys yng nghofnodion eu hasiantaethau, a bydd y canllawiau llinell amser yn cael eu hadolygu i adlewyrchu hyn.

**Dysgu 3**: Bydd angen i bob asiantaeth gydymffurfio â gweithrediad y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd ar gyfer Cymru, Rhagfyr 2018 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, (y Ddeddf). Er mwyn atgyfnerthu llais a chyfraniad plant, pobl ifanc a'u teuluoedd (gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn) yn eu Cynllun Datblygu Unigol (CDU), bydd angen tystiolaeth i ddangos eu bod wedi cael eu hannog i gyfrannu i benderfyniadau, a bod barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn/unigolyn ifanc a'i rieni/gofalwyr wedi'u hystyried o ddifrif ym mhob cyfarfod/adolygiad.

**Dysgu 4**:Mae angen i bob ysgol ac awdurdod lleol sicrhau bod eu harfer, eu hyfforddiant a'u canllawiau polisi ar fwlio yn cydymffurfio ac yn cydnabod pa mor agored i niwed ychwanegol yw plant a all fod ag anghenion dysgu ychwanegol, problemau iechyd meddwl emosiynol a llesiant, sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, neu ag anableddau. Mae angen iddynt gydymffurfio â Chanllawiau Llywodraeth Cymru, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 270/2021[65] a Hawliau, Parch, Cydraddoldeb:Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir.[66]

**Dysgu 5**: Rhaid i bob awdurdod lleol a sefydliad addysgol ddangos, trwy eu prosesau archwilio ac atebolrwydd blynyddol, eu bod yn cydymffurfio ag offeryn archwilio Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 270/2021,

[65] Llywodraeth Cymru – Cadw dysgwyr yn ddiogel Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002 (270/2021) Mawrth 2021
[66] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/hawliau-parch-cydraddoldeb-canllawiau-statudol-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu-ysgolion-a-gynhelir.pdf

a rhaid iddynt ddangos sut y maent yn 'adolygu eu trefniadau diogelu a nodi cryfderau a gwendidau er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau diogelu cyfreithiol'[67].

**Dysgu 6**: Dylai'r awdurdod lleol ystyried adolygu ei broses bresennol mewn perthynas â threfniadau cludiant ysgol, er mwyn sicrhau bod unrhyw blant neu bobl ifanc sy'n agored i niwed yn cael eu diogelu'n ddigonol, yn enwedig pan fo adroddiadau / pryderon o fwlio yn cael eu codi.

**Dysgu 7**: Mae angen i bob ysgol ystyried sut y maent yn sicrhau bod cyfathrebu â rhieni yn amserol, yn gymesur ac yn effeithiol, wrth fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a allai fod gan rieni ynghylch llesiant eu plentyn, a lle y bo'n bosibl bod canlyniad yn cael ei gyflawni a'i gofnodi.

**Dysgu 8**: Yn dilyn digwyddiad trawmatig, dylai pob asiantaeth ddatblygu cynllun sy'n ystyried anghenion llesiant tymor byr a thymor hwy eu staff, ac unrhyw rai eraill yr effeithir arnynt gan y digwyddiad.

## Proses adolygu ymarfer plant

Yn unol â gweithdrefnau, cynhaliwyd cyfarfod Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentyndod (PRUDiC)[68].Safbwynt yr aelodau yn y cyfarfod hwnnw oedd, yn seiliedig ar amgylchiadau'r farwolaeth sydyn, y dylid cyfeirio'r mater i'w ystyried dan y broses Adolygiad Ymarfer Plant. Cymeradwyodd y cadeirydd y dylid cynnal Adolygiad Ymarfer Plant Cryno.

Roedd y gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y panel adolygu fel a ganlyn:

- Yr heddlu
- Gwasanaethau Cymdeithasol Teuluoedd a Phlant yr awdurdod lleol
- Gwasanaethau iechyd
- Addysg
- Bwrdd diogelu rhanbarthol

Comisiynwyd cadeirydd panel annibynnol ac adolygydd annibynnol a oedd, yn unol â'r canllawiau, yn annibynnol ar y broses o reoli'r achos ac a oedd â'r profiad, y gallu, yr wybodaeth a'r sgiliau perthnasol fel sy'n ofynnol gan yr achos a'r amgylchiadau dan sylw.

### Digwyddiadau dysgu

Yn unol â'r canllawiau, cynhaliwyd digwyddiad dysgu rhithwir ar 1 Rhagfyr 2020. Hwyluswyd hyn ar y cyd gan gadeirydd y panel annibynnol a'r adolygydd annibynnol.

Mynychwyd y digwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr a rheolwyr gan yr asiantaethau canlynol:

- Yr heddlu
- Addysg (staff ysgol)
- Gwasanaethau plant yr awdurdod lleol

[67] Llywodraeth Cymru – Cadw Dysgwyr yn Ddiogel – Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002 (270/2021) Mawrth 2021, t1, 1.39
[68] Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentyndod (PRUDiC) 2018

- Iechyd (meddyg teulu, paediatregydd ymgynghorol, nyrs ysgol, arweinydd diogelu plant)
- Bwrdd diogelu rhanbarthol (cynrychiolir gan reolwr y bwrdd)

Rhoddodd y digwyddiad dysgu gyfle i'r gweithwyr proffesiynol dan sylw ystyried eu cyfranogiad, eu hymarfer, eu hasesiadau, a'r prosesau gwneud penderfyniadau a oedd yn ymwneud â bywyd B. Roedd yn amlwg, wrth rannu'r holl wybodaeth a oedd yn hysbys i weithwyr proffesiynol ar wahanol adegau, fod darlun mwy clir o amgylchiadau B wedi dod i'r amlwg.

Roedd sicrhau nad oedd ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu barnu na'u beio yn rhan hanfodol o'r digwyddiad dysgu. Dylid cydnabod bod pawb a oedd yn bresennol yn y digwyddiad wedi'u cyffwrdd gan gyflwr y teulu ac yn awyddus i ystyried mewn modd agored a hunanfyfyriol unrhyw ddysgu posibl.Mynegwyd effaith marwolaeth annisgwyl B gan y cyfranogwyr hynny a oedd yn ei adnabod ac mae eu galar a'u colled yn dal yn amlwg iawn.

Roedd cyfranogwyr yn y digwyddiad dysgu yn gallu ystyried y cwestiynau canlynol gan ddefnyddio methodoleg a fframwaith 'Sign's of Safety', i hwyluso eu trafodaethau yn y Digwyddiad Dysgu a nodi'r hyn a ddysgwyd:

| |
|---|
| 1. Beth aeth yn dda, pa arfer da ydych chi wedi'i nodi? |
| 2. Yn eich barn chi, beth nad aeth yn dda, a oes meysydd sy'n peri pryder i chi? |
| 3. Beth ydych chi'n teimlo y gallai asiantaethau fod wedi'i wneud yn wahanol? |
| 4. Yn eich barn chi, pa gamau y mae angen i asiantaethau eu cymryd wrth symud ymlaen i sicrhau bod unrhyw ddysgu yn llywio ymarfer yn y dyfodol? |
| 5. A fu dysgu i chi / eich asiantaeth? |
| 6. Beth yw'r camau y mae angen ichi eu cymryd i sicrhau bod pethau yr ydym wedi'u dysgu, yn newid yr hyn a wnawn yn y dyfodol? |
| 7. Unrhyw sylwadau neu arsylwadau eraill yr hoffech eu gwneud? |

Roedd y gwerthusiadau a'r adborth ar gyfer y digwyddiad dysgu yn hynod gadarnhaol ac yn cynnwys sylwadau gan yr holl gyfranogwyr, mae sampl o'r sylwadau i'w gweld isod:

Gan y pennaeth:

"*Er yn anodd iawn yn emosiynol ac yn feddyliol yn y cyfnod cyn y digwyddiad dysgu ac ar y diwrnod, roedd yn brofiad cadarnhaol i mi a'r staff hynny sydd wedi gwneud sylwadau ers hynny. Dywedodd yr holl staff eu bod yn gweld y digwyddiad wedi'i drefnu'n dda ac yn werth chweil iawn.*"

Gan aelodau o staff yr ysgol:

*"Roedd yn bwysig i mi fod personoliaeth arbennig B wedi'i gyfleu, a bod y diwrnod yn canolbwyntio arno fe."*

*"Cefais fy syfrdanu gan dosturi a pharodrwydd pawb i ddysgu."*

*"Wrth fyfyrio ar y diwrnod, rydw i wedi sylweddoli pa mor therapiwtig ydoedd yn ogystal â diwrnod o ddysgu."*

Gan gydweithwyr ym maes iechyd:

*"Rhagorol. Yn broffesiynol ac yn empathig. Wedi'i hwyluso'n hynod o dda. Diolch am y profiad a'r dysgu."*

**Digwyddiadau llais cyn-ddisgyblion**

Roedd llais grŵp blwyddyn B yn bwysig iawn i'r Adolygiad Ymarfer Plant Cryno, ac ar 1 Mawrth 2021, cynhaliodd yr adolygydd annibynnol a chadeirydd y panel gyda chefnogaeth Coleg Gŵyr Abertawe a Choleg Sir Gâr/Coleg Ceredigion ddau ddigwyddiad llais y cyn-ddisgyblion. Roedd tri o cyfranogwr yn bresennol yng nghwmni yr uwch arweinwyr diogelu dynodedig o'r colegau priodol. Darparodd dau gyn-ddisgybl ymatebion ysgrifenedig. Clywyd llais rhiant hefyd, ac mae ei farn hefyd wedi'u crynhoi yn Adroddiad yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno.

**Ymgysylltiad teuluol**

Roedd teulu agos B yn ymgysylltu'n llawn â'r broses adolygu. Cyfarfu cadeirydd y panel, ynghyd â gweithiwr cymdeithasol o wasanaethau plant (y mae'r teulu'n ei barchu fwyaf, ac a'u cefnogodd yn dilyn marwolaeth B) â'r teulu, yng nghartref y teulu i ddechrau, i drafod y broses ar gyfer yr adolygiad, ac i glywed eu barn am yr hyn oedd wedi digwydd ac i gynnig cydymdeimlad diffuant oddi wrth yr aelodau panel. Eglurodd y cadeirydd y canlynol:

- Pam bod adolygiad a sut y byddai'n cael ei gynnal;
- Rôl yr adolygydd annibynnol a chadeirydd y panel;
- Y digwyddiad dysgu; ac
- Rhoi gwybod am amserlenni cyhoeddi.

Nid oedd yn bosibl cynnal cyfarfod wyneb yn wyneb â'r adolygydd annibynnol oherwydd bod cyfyngiadau COVID-19 ar waith; felly, cynhaliwyd y cyfarfodydd gyda'r adolygydd annibynnol, cadeirydd y panel a'r teulu yn rhithwir gan ddefnyddio'r cyfryngau Microsoft Teams a Zoom. Mae safbwyntiau'r teulu wedi'u hystyried gan y panel adolygu a'r adolygydd annibynnol wrth lunio'r adroddiad adolygu hwn. Dyfynnir barn y teulu yn uniongyrchol ym mhrif gorff yr adroddiad. Roedd y teulu hefyd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr adolygiad ac roedd ganddynt fynediad agored at gadeirydd y panel. Rhoddwyd cyfle iddynt gyflwyno unrhyw wybodaeth y dymunent i gadeirydd y panel a'r adolygydd annibynnol, ac i roi gwybod iddynt am unrhyw aelodau ychwanegol o'r teulu neu ffrindiau agos y teulu y byddent yn dymuno iddynt siarad â hwy. Mae'r teulu wedi cael cynnig cyfarfod pellach â'r adolygydd annibynnol a chadeirydd y panel cyn cyhoeddi Adroddiad yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno.

**Ymgysylltu â chwaer**

Roedd gan chwaer iau B berthynas agos â'i brawd, felly roedd yn bwysig ei bod yn cael cynnig y cyfle i gymryd rhan yn yr adolygiad. Gwnaeth yr adolygydd annibynnol a chadeirydd y panel allu siarad â hi yn rhithwir, gan ddefnyddio cyfrwng Microsoft Teams. Roedd D hefyd wedi cyfarfod â chadeirydd y panel yn y cyfarfod teulu cychwynnol cyn cyfyngiadau'r pandemig.

**Disgwyliadau teulu o'r adolygiad**

TERFYNOL

Lleisiwyd cwestiynau ac ymholiadau arwyddocaol gan y teulu a gafodd y rhain eu cynnwys a'u harchwilio yn y digwyddiad dysgu ac yn Adroddiad yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno.

**Gyda diolchgarwch aruthrol**

Mae cadeirydd y panel annibynnol a'r adolygydd annibynnol wedi cael cefnogaeth ragorol o ran cwblhau'r Adolygiad Ymarfer Plant Cryno hwn, a hoffent ddiolch yn ddiffuant i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru CYSUR a'u tîm gweinyddol, Tîm Cymorth Gwasanaethau Plant Sir Gaerfyrddin, a gweithiwr cymdeithasol plant, seicolegydd therapi gwybyddol ymddygiadol, Pennaeth Coleg Sir Benfro a'i arweinwyr SEED a TG, penaethiaid Coleg Sir Gâr/Coleg Ceredigion a Choleg Gŵyr Abertawe ac uwch arweinwyr diogelu dynodedig.

Mae eu cefnogaeth, cyfraniadau, eu cymorth yn hwyluso adnoddau a hyblygrwydd wedi bod yn amhrisiadwy mewn cyfnod sydd wedi bod yn gyfnod digynsail, i wneud, cynnal a chwblhau Adolygiad Ymarfer Plant Cryno, yn fwy diweddar, ers mis Mawrth 2020 o dan reoliadau COVID-19.

<table>
<tr><th colspan="4">Datganiad gan yr adolygydd(wyr)</th></tr>
<tr><td>Adolygydd 1</td><td>Gladys Rhodes White OBE</td><td>Adolygydd 2<br>(fel y bo'n briodol)</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Datganiad o annibyniaeth ar yr achos<br>Datganiad cymhwyster i sicrhau ansawdd</td><td colspan="2">Datganiad o annibyniaeth ar yr achos<br>Datganiad cymhwyster i sicrhau ansawdd</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyn i mi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn, gwnaf y datganiad canlynol:<br>• Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos.<br>• Nid wyf wedi cael unrhyw gysylltiad fel rheolwr llinell uniongyrchol â'r ymarferydd (ymarferwyr) cysylltiedig.<br>• Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig priodol, yr wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant i gynnal yr adolygiad.<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion a nodir yn y cylch gorchwyl.</td><td colspan="2">Cyn i mi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn, gwnaf y datganiad canlynol:<br>• Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos.<br>• Nid wyf wedi cael unrhyw gysylltiad fel rheolwr llinell uniongyrchol â'r ymarferydd (ymarferwyr) cysylltiedig.<br>• Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig priodol, yr wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant i gynnal yr adolygiad.<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion a nodir yn y cylch gorchwyl.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Adolygydd 1 ...............Gladys Rhodes- White OBE<br>(Llofnod) </td><td colspan="2">Adolygydd 2 .....................................................<br>(Llofnod)</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Enw** **Gladys Rhodes White OBE**<br>*(Enw mewn llythrennau bras)* | **Enw** ……………<br>*(Enw mewn llythrennau bras)* |
| **Dyddiad** ……8 Gorffennaf 2021………………. | **Dyddiad** ………………………………………. |

| |
|---|
| **Cadeirydd y panel adolygu** ………………*Maxine Thomas*……………………………………………………….<br>*(Llofnod)* Maxine Thomas. |
| **Enw** **Maxine Thomas**<br>*(Enw mewn llythrennau bras)* |
| **Dyddiad** ………………………8 Gorffennaf 2021…………………………………………………………. |
| **At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig**<br>Dyddiad derbyn yr wybodaeth: *(dyddiad)*<br>Anfon llythyr cydnabod at gadeirydd y bwrdd: ……………………………………*(dyddiad)*<br>Dosbarthu i'r arolygiaethau / arweinwyr polisi perthnasol: ……………………………………….*(dyddiad)* |

| Asiantaethau | Do | Naddo | Rheswm |
|---|---|---|---|
| AGGCC | | | |
| Estyn | | | |
| AGIC | | | |
| Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi | | | |
| Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi | | | |
| | | | |

**Atodiad 1** **Cylch Gorchwyl ar gyfer CYSUR 7/2018 (Adolygiad Ymarfer Plant Cryno)**

TERFYNOL

## Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant Cryno

- **Arweinydd Diogelu Enwebedig** - Stefan Smith
- **Cadeirydd y Panel Adolygu** - Maxine Thomas
- **Adolygydd(wyr) Annibynnol** - Gladys Rhodes White

**Tasgau craidd:**

- Penderfynu a yw penderfyniadau a chamau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau'r gwasanaethau a enwir a'r bwrdd.
- Archwilio effeithiolrwydd gweithio rhyngasiantaethol a darpariaeth gwasanaeth ar gyfer y plentyn a'r teulu.
- Penderfynu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a chamau gweithredu er lles y plant ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Ceisio cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu / pobl eraill a nodwyd, a rhoi gwybod iddynt am agweddau allweddol cynnydd.
- Ystyried unrhyw wybodaeth gyd-destunol berthnasol sy'n gysylltiedig â'r themâu a nodwyd sy'n codi o'r broses adolygu.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu achosion cyfochrog sy'n ymwneud â'r achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu amlasiantaeth ar gyfer ymarferwyr, a nodi'r adnoddau angenrheidiol.

**Tasgau penodol y panel adolygu:**

- Nodi a chomisiynu adolygydd i weithio gyda'r *panel adolygu* yn unol â chanllawiau ar gyfer adolygiadau cryno.
- Cytuno ar amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad, cynhyrchu llinell amser a chrynodeb achos cychwynnol, a nodi unrhyw gamau gweithredu uniongyrchol a gymerwyd eisoes.
- Cwblhau gwybodaeth ychwanegol am yr adolygydd annibynnol ac aelodaeth y panel
- Cynhyrchu llinell amser unol, dadansoddiad cychwynnol a deilliannau dysgu.
- Cynllunio, gyda'r adolygydd, ddigwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr, gan gynnwys nodi'r rhai i fod yn bresennol a threfniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau ar gyfer adborth.
- Cynllunio trefniadau cyswllt rhwng yr adolygydd a'r unigolyn ac aelodau'r teulu / pobl eraill perthnasol cyn y digwyddiad.
- Derbyn ac ystyried adroddiad drafft yr Adolygiad Ymarfer Plant i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i fodloni a bod unrhyw ddysgu ychwanegol yn cael ei nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau'r adolygiad a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno

nhw i'r Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant i'w hystyried ac i gytuno arnynt.

- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adolygiad ddod i ben a chyn ei gyhoeddi.
- Bydd aelodau'r *Panel Adolygu* yn cadw at egwyddorion *Deddf Diogelu Data 1998* wrth drin gwybodaeth bersonol, fel rhan o broses yr Adolygiad Ymarfer Plant (gweler yr adran ar Rannu gwybodaeth a chyfrinachedd).

**Tasgau penodol is-grŵp yr Adolygiad Ymarfer Plant:**

- Cytuno a chymeradwyo cylch gorchwyl drafft ar gyfer pob achos a argymhellir ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adroddiad drafft a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r bwrdd i'w hystyried a chytuno arnynt.
- Monitro cynlluniau gweithredu'r Adolygiad Ymarfer Plant i sicrhau bod yr holl argymhellion yn cael eu gweithredu ar ran y bwrdd.

**Tasgau penodol Bwrdd Diogelu Plant CYSUR:**

- Hysbysu Llywodraeth Cymru am ymgymryd ag Adolygiad Ymarfer Plant.
- Bydd yn cadw at amserlenni ar gyfer ei gwblhau, yn unol â'r canllawiau statudol.
- Cael yr adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant terfynol a'r cynllun gweithredu a'u cymeradwyo'n ffurfiol..
- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu'r bwrdd i'w hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Y bwrdd yn anfon at asiantaethau perthnasol am sylwadau terfynol cyn cymeradwyo a chyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cadarnhau'r trefniadau i'r is-grŵp adolygu reoli'r cynllun gweithredu amlasiantaeth, gan gynnwys sut y bydd gwelliannau gwasanaeth a ragwelir yn cael eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- Cynllunio cyhoeddi'r adroddiad ar wefan y bwrdd am o leiaf 12 wythnos ar ôl ei gwblhau.
- Cytuno i'w ddosbarthu i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.
- Bydd cadeirydd y bwrdd yn gyfrifol am wneud yr holl sylwadau ac ymatebion cyhoeddus i ddiddordeb gan y cyfryngau mewn perthynas â'r adolygiad hyd nes y bydd y broses wedi'i chwblhau.

**Rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd**

Rhaid egluro perchnogaeth yr holl wybodaeth a'r ddogfennaeth er mwyn cael y caniatâd priodol gan y sefydliad perthnasol cyn rhannu. Dim ond gwybodaeth y maent yn berchen arni neu sy'n deillio ohonynt y gall sefydliadau ei rhannu.

TERFYNOL

Dylai'r cyfrifoldeb am ofyn am wybodaeth oddi wrth bob sefydliad (gan gynnwys gan ddarparwyr annibynnol) gael ei egluro a'i gytuno gan y panel, fel y bo'n briodol.

Bydd datganiad cyfrinachedd (fel isod) yn cael ei lofnodi ym mhob cyfarfod o'r panel gan bawb sy'n bresennol i ailddatgan y ffiniau ar gyfer rhannu gwybodaeth:

- Wrth weithio gyda gwybodaeth sensitif mewn perthynas ag Adolygiad Ymarfer Plant, mae pob asiantaeth wedi cytuno ar ffiniau cyfrinachedd. Mae'r broses hon yn parchu'r ffiniau cyfrinachedd hynny, ac fe'i cedwir o dan ddealltwriaeth a rennir, fel a ganlyn:
    - Cynhelir cyfarfodydd y panel o dan arweiniad *'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant* o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014.
    - Ystyrir bod datgelu gwybodaeth y tu allan i'r panel y tu hwnt i'r hyn a gytunwyd yn y cyfarfod yn achos o dorri cyfrinachedd y testun ac o dorri cyfrinachedd yr asiantaethau cysylltiedig.
    - Os teimlir bod caniatâd i ddatgelu yn hanfodol, dylid ceisio caniatâd cychwynnol gan gadeirydd y panel, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â'r egwyddor 'angen gwybod'.
    - Fodd bynnag, Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru sy'n bennaf gyfrifol am ddatgelu gwybodaeth i drydydd parti o'r panel amlasiantaeth a rhaid gwneud atgyfeiriad at Reolwr Busnes y bwrdd i gael awdurdod i ddatgelu.

TERFYNOL